

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2025-26



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

**Trosolwg y
Bwrdd**
03-04

**Ynglŷn
â Medr**
05-06

**Dadansoddiad
o Berfformiad**
07-33

**Adroddiad
Ariannol**
34-36

**Adroddiad
Atebolrwydd**
37-102

Trosolwg y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd

Croeso i'n hail adroddiad blynyddol sy'n edrych yn ôl dros ein gweithgareddau yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Rydym yn falch o adrodd ar y cynnydd pendant yr ydym wedi'i wneud i gyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn ein Cynllun Strategol 2025-30.



Yr Athro Fonesig Julie Lydon
Cadeirydd



James Owen
Prif Weithredwr

Er mai hwn yw ein hail adroddiad blynyddol, mae'n cwmpasu'r flwyddyn lawn gyntaf y buom yn weithredol - blwyddyn a nodweddiwyd gan newid o bontio i gyflawni.

Ochr yn ochr â'n ffocws ar gyflawni, rydym wedi parhau i gryfhau ein hymgysylltiad â'r sector, gan gydnabod yr heriau cymhleth ac amlweddol yr ydym yn eu hwynebu.

Am y tro cyntaf, fe wnaethom fuddsoddi dros £1bn o gyllid yn ein sector addysg drydyddol ac ymchwil, gan gefnogi bron i 325,000 o ddysgwyr ledled Cymru. Am y tro cyntaf, fe wnaethom ymgynghori ynghylch ein dull rheoleiddio, sydd wedi'i fwriadu i gryfhau ymgysylltiad â dysgwyr, llywio arfer gorau a sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Ac am y tro cyntaf hefyd, fe arweiniodd ni sgwrs genedlaethol am ddyfodol prentisiaethau yng Nghymru, gan ymgysylltu'n eang â dysgwyr, cyflogwyr a phartneriaid darparu ledled Cymru i siapia set eglur o flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, ni fu disgwyliadau erioed yn uwch – ehangu cyfranogiad, ymateb i newid economaidd cyflym, cefnogi llesiant ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i enwi dim ond rhai.

Yn y cyd-destun hwn, mae arnom eisiau cofnodi ein gwerthfawrogiad am y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud bob dydd gan staff, arweinwyr, partneriaid a chyflogwyr ar draws y sector cyfan. Mae eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb hwy'n hanfodol i sicrhau bod system addysg drydyddol Cymru'n parhau i gyflawni ar ran dysgwyr, cymunedau a'r economi, hyd yn oed dan yr amgylchiadau anoddaf. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae ein huchelgais yn dal i fod yn glir.

Mae arnom eisiau system addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru sy'n galluogi dysgwyr i ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen i gefnogi economi ffyniannus, gynhwysol a chynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i'r system fod yn hyblyg, yn gydgysylltiedig ac yn ymatebol, gan gynnig llwybrau cydlynus a hygyrch ar unrhyw adeg mewn bywyd. Er mwyn cyflawni hyn bydd yn rhaid wrth fwy o gydweithio, buddsoddi wedi'i dargedu, a ffocws diwyro ar wella profiadau a deilliannau dysgwyr.

Fe grëwyd Medr i ddod â mwy o gydlyniant a chydweithio i'n system addysg drydyddol ac ymchwil.

Mae'n dda gennym adrodd ar y gwahaniaeth yr ydym eisoes yn ei wneud ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth glòs gyda'r Llywodraeth newydd i roi cymorth i gyflawni ei blaenoriaethau ac i alluogi system sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi er budd Cymru.

Yr Athro Fonesig Julie Lydon a James Owen

Amdanom ni

Medr yw'r corff hyd braich sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil o 1 Awst 2024. Mae hyn yn cynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, chweched dosbarth mewn ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi a gyllidir gan y Llywodraeth.

Ni yw'r sefydliad cyntaf o'i fath yn y DU, ac rydym yn un o'r cyntaf yn fyd-eang, i gyfuno'r cylch gwaith hwn ar gyfer y sector trydyddol cyfan.



Mae ein tirwedd addysg drydyddol yn cynnwys

9

prifysgol

(gan gynnwys y
Brifysgol Agored)

13

**o golegau
addysg bellach**

22

o awdurdodau lleol

â chyfrifoldeb am ddarpariaeth
chweched dosbarth a dysgu
oedolion yn y gymuned



Mae cyllid Medr i
awdurdodau lleol yn cefnogi
**133 o leoliadau chweched
dosbarth mewn ysgolion**

4

**darparwr preifat sy'n darparu
hyfforddiant trwy brentisiaethau**

Ein gweledigaeth

Cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn helpu i siapio diwylliant ein sefydliad:



Dysgu

Mae dysgu'n greiddiol i bopeth a wnawn. Credwn fod chwilfrydedd yn hybu arloesi ac yn helpu i ehangu ein gorwelion.



Cydweithio

Gallwn gyflawni llawer mwy gyda'n gilydd nag y gallem byth ei wneud ar ein pennau ein hunain.



Cynnwys pawb

Rydym yn frwd dros gynhwysiant, gan geisio creu'r amodau cywir i bawb gyflawni eu llawn botensial.



Rhagori

Mae gennym ddyheadau uchel ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru ac rydym wastad yn gosod safonau uchel i ni ein hunain er mwyn bod y gorau y gallwn fod.

Trosolwg o berfformiad

Dros ein cyfnod adrodd cyntaf, fe wnaethom amlygu gwaith a gyflawnwyd i sicrhau pontio esmwyth i sefydliad a chylch gwaith newydd.


Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi adeiladu ar hynny, gan ddechrau rhoi'r strategaeth ar waith. Efallai fod hyn yn fwyaf amlwg mewn gwaith i gyflawni [system reoleiddio newydd ar gyfer y sector trydyddol cyfan yng Nghymru](#), sy'n gam arwyddocaol tuag at gyfuno'r cyfle a grëwyd gan ein cylch gwaith â'r canlyniadau pendant y mae arnom eisiau eu hybu.

Trwy weithgarwch arall mae Medr eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Boed trwy [gynyddu'r ddarpariaeth prentisiaethau iau](#) ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg uchel o syrthio allan o addysg, cefnogi ymchwilwyr gyrfa gynnar neu helpu i ddarparu gweithlu'r dyfodol, rydym yn defnyddio ein cylch gwaith buddsoddi

a rheoleiddio ar draws addysg drydyddol yn ei holl ehangder er budd dysgwyr, cymunedau ac economïau ledled Cymru.

Mae hyn yn bwydo i mewn i'n [Cynllun Strategol 2025-2030](#), sydd yn ei dro'n ystyried y [datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi](#) gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r un ar ddeg o ddyletswyddau strategol a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae ein Cynllun yn disgrifio nod sefydlu a phum nod strategol (sydd hefyd yn gweithredu fel ein hamcanion llesiant) y byddwn yn mynd ar eu trywydd dros y pum mlynedd nesaf wrth i ni wireddu ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.



Cyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredol

Fe gyhoeddom ni ein Cynllun Gweithredol ym mis Mehefin 2025. Roedd y Cynllun yn nodi'r gweithgarwch yr oeddem yn ei flaenoriaethu ym mlwyddyn ariannol 2025-26 i wneud cynnydd tuag at yr ymrwymadau sefydlu a'r ymrwymadau twf yn ein Cynllun Strategol.

Cafodd yr holl weithgareddau a gyflwynwyd yn y Cynllun hwn eu datblygu gyda'n nodau strategol a'n huchelgeisiau hirdymor mewn golwg.

Ar draws y Cynllun Gweithredol ceir gweithgareddau sy'n torri ar draws amcanion strategol megis cyfle cyfartal, y Gymraeg, cyfranogiad a phrofiad dysgwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n ein galluogi i gyflawni ein swyddogaethau buddsoddi a rheoleiddio hollbwysig.

Mae graddfeydd amser ar gyfer cyflawni rhai gweithgareddau wedi newid yn ystod y flwyddyn oherwydd newid mewn blaenoriaethau sefydliadol ac ymwybyddiaeth o gapasiti o fewn Medr ac yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yn ei gyfanrwydd. I liniaru effeithiau hyn, mae gennym strategaeth glir i gyflymu gweithgarwch i recriwtio staff mewn meysydd hollbwysig yn y sefydliad ac rydym wedi cynnal deialog barhaus gyda darparwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran trosi bwriad strategol yn newid ymarferol ar draws y system ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni. Mae'r adran hon yn manylu ar rai o'r gweithgareddau allweddol a sut y maent yn ein galluogi i gyflawni yn erbyn ein nodau strategol. Mewn nifer o achosion mae'r gweithgarwch yn rhychwantu nodau lluosog.

Nod sefydlu

Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo.



Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024, gan ddwyn ynghyd swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru gyda staff yn trosglwyddo o'r sefydliadau etifeddol.

A ninnau wedi trosglwyddo staff a swyddogaethau'n esmwyth, eleni rydym wedi adeiladu ar ein stiwardiaeth ar sector trydyddol sy'n profi heriau sylweddol trwy arferion cyllido a rheoleiddio a nodwyd yn glir ac y dangoswyd tystiolaeth eglur ohonynt.

Mewnwelediad i'r sector

Mae ein gwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac mae dyletswydd statudol arnom i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr addysg drydyddol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddarparwyr gynlluniau credadwy yn eu lle i sicrhau eu hyfywedd ariannol byrdymor a'u cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

Ar gyfer addysg uwch, cafodd y sylfaen dystiolaeth hon ei chrynhai'n ddiweddar yn adroddiad cyntaf Medr ar gynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 2024-25 a'r rhagolygon diweddaraf hyd at 2027-28, ac mae'n darparu gwybodaeth fanwl ar lefel y sector am y sefyllfa weithredu, balansau arian parod, ffynonellau incwm, gwariant, hylifedd, llif arian parod, benthyca a gwariant cyfalaf.

Mae'r adroddiad hwnnw, yn ogystal â gwaith i ddysgu gwersi o rannau eraill o'r byd megis y dadansoddiad a gomisiynwyd gennym i gael dealltwriaeth well am faterion a brofwyd ym Mhrifysgol Dundee a myfyrio yn eu cylch, wedi helpu i siapia arferion a blaenoriaethau.

Mae ein ffocws ar fewnwelediad wedi bod yn amlwg ar draws y sector trydyddol, yn anad dim o ran cryfhau sianeli ar gyfer ymgysylltu â darparwyr a rhanddeiliaid y sector, gwrando ar ddysgwyr a chanfasio barn i helpu i siapia cyfleoedd, gweithgarwch cyflawni a chynnydd. Mae'r ymgysylltu hwn yn amrywio o linellau cyfathrebu rheolaidd a chlir i ymgynghori a digwyddiadau ffurfiol.


Buddsoddi a chyllid

Eleni rydym wedi buddsoddi dros £1 biliwn yn ein sector addysg drydyddol ac ymchwil, gan alluogi darparwyr ledled Cymru i gyflawni ein blaenoriaethau yn unol â'n telerau ac amodau.

Darperir peth o'n cyllid hefyd i sefydliadau sy'n cefnogi'r sector neu'n rhoi sicrwydd i ni ynghylch cyflawni'r blaenoriaethau hynny megis Estyn, Jisc, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.

Dosbarthiad cyllid y sector 2025-26

Yr hyn yr ydym yn buddsoddi ynddo:



Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y buddsoddiad a ddyrannwyd i'n darparwyr:

- Prentisiaethau **£148m**
- Cyllid craidd addysg bellach (gan gynnwys darpariaeth addysg bellach a chymorth dysgu ychwanegol a chyllid anghenion dysgu ychwanegol) **£480m**
- Cyllid craidd addysg uwch (gan gynnwys cyllid ymchwil ac arloesi) **£159m**
- Cyllid craidd awdurdodau lleol (gan gynnwys chweched dosbarth a dysgu oedolion yn y gymuned) **£128m**
- Cyllidebau wedi'u targedu **£43m**
- Cyllid cyfalaf addysg drydyddol **£39m**
- Cyllid arall **£15m**

Ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r £m gyfan agosaf.

Cyfanswm
cyllid Medr
£1bn
(£1,012m)

Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad hwn yn rhoi cymorth i ddarparu addysg drydyddol a chyflawni ymchwil yn uniongyrchol, ac yn cefnogi gweithgarwch cysylltiedig i danategu hynny.

Fe wnaethom fuddsoddiad mawr hefyd o £5 miliwn i gefnogi ffyrdd newydd o weithio ar draws sefydliadau addysg drydyddol a ffiniau daearyddol. Fe gyhoeddodd ni'r [Gronfa Datblygu Strategol](#) ym mis Hydref 2025 i roi anogaeth ar gyfer mwy o gydweithio a chefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at o leiaf un o'n nodau strategol.

Fe wnaethom wahodd ceisiadau gan brifysgolion, colegau addysg bellach, awdurdodau lleol neu ddarparwyr prentisiaethau a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr, gyda chyfle i gydweithio gydag eraill yn fwy eang fel partneriaid arweiniol. Roedd y deuddeg o [brosiectau llwyddiannus](#) yn amrywio o brosiect rhanbarthol i archwilio datblygiad cwricwlwm arloesol ar gyfer ynni glân i archwilio mwy o gydwasanaethau ymhlith darparwyr addysg uwch, i ddatblygu cyrsiau byrion i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau rhanbarthol ym meysydd digidol, sgiliau gwyrdd, technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch.



Sefydlwyd Medr gyda mandad clir i gyflawni ar gyfer dysgwyr a gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl rheoleiddio a chyllido'r sector ôl-16 cyfan. Mae helpu darparwyr addysg drydyddol i gydweithio'n fwy effeithiol yn amcan allweddol i Medr ei gyflawni.

Mae'r prosiectau hyn yn dangos beth yn union y gall y dull hwnnw ei gyflawni: prifysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd i greu cyfleoedd newydd ar gyfer dysgwyr ym mhob cwr o Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld canlyniadau'r partneriaethau hyn.



Vikki Howells, weinidog Addysg Bellach ac Uwch Llywodraeth Cymru ar y pryd

Ein rôl reoleiddiol

Mae Medr yn dal i fod â rôl reoleiddiol ganolog i oruchwylio'r sector, gan sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu o fewn fframwaith cadarn o ran atebolrwydd ariannol, llywodraethu effeithiol, a rheoli risg.

O ystyried maint gweddol fach y sector, rydym wedi gallu parhau i ddefnyddio dull hynod ymgysylltiol, gan gydweithio'n agos gyda sefydliadau unigol i adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg ar adeg gynnau, darparu arweiniad, a chefnogi strategaethau lliniaru. Mae'r ymgysylltu uniongyrchol hwn yn cryfhau goruchwyliaeth ac yn ei gwneud yn bosibl diogelu arian cyhoeddus mewn modd rhagweithiol. Trwy fonitro rheolaidd, craffu ar berfformiad ariannol, a phrosesau sicrwydd, mae Medr yn helpu i sicrhau bod sefydliadau'n cynnal arferion rheoli ariannol cryf, yn dwyn gwerth am arian, ac yn dal i fod yn gynaliadwy gan gyflawni eu hymrwymiaid strategol ac o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae dylunio a datblygu'r fframwaith rheoleiddio cyntaf ar gyfer y sector trydyddol cyfan yng Nghymru - y cyntaf o'i fath yn y DU - yn ysgogydd allweddol ar gyfer cyflawni ein swyddogaeth reoleiddiol.

Un o elfennau allweddol y darn arwyddocaol hwn o waith fu'r ffordd yr ydym wedi dewis ymgysylltu â darparwyr, dysgwyr a chyrrff sy'n eu cynrychioli ar draws addysg drydyddol i brofi cynigion, eu mireinio a'u gwella bob yn dipyn.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwahanol yn y cnaud ac ar-lein dros y ddau gyfnod ymgynghori ffurfiol yn 2025, gyda channoedd o fynychwyr ar draws y sector a ledled Cymru'n ymgysylltu â hwy. Roedd y sesiynau ymgysylltu'n cynnwys ffocws sylweddol ar sicrhau bod ein dull cydgysylltiedig yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn gwahanol

rannau o'r sector hefyd, gyda chyfraniadau defnyddiol ar draws sectorau'n goleuo newidiadau, gwelliannau a diwygiadau. Ni fydd llawer o darparwyr wedi cael eu rheoleiddio mewn meysydd penodol o'r blaen, ac roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion ymgynghori ffurfiol a ddilynodd yn seiliedig ar wybodaeth dda, yn eglur ac yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo Medr i gyflwyno system reoleiddio newydd a gynlluniwyd yn ofalus, a fydd yn cael effaith fawr ac y gellir ei chyflawni.

Ym mis Ebrill, yn dilyn yr ymgynghori ac ymgysylltu helaeth yma, fe gyhoeddom ni fanylion ein [system reoleiddio newydd ar gyfer y sector addysg drydyddol cyfan](#). Bydd yn dod i rym yn ffurfiol ym mis Awst 2026.

Mae maint ein cylch gwaith, ynghyd â natur tirwedd drydyddol Cymru, wedi ein galluogi i fod yn rheoleiddiwr meddylgar - gan gynnal deialog reolaidd, adeiladol gyda darparwyr a ninnau hefyd yn eu dwyn i gyfrif wrth fynd ar drywydd nodau ac uchelgeisiau cyffredin. Mae'n ddull rheoleiddio cynhwysfawr sy'n cryfhau ymgysylltiad â dysgwyr, yn llywio arfer gorau, ac yn helpu i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus ar draws y sector.

Mae'r system reoleiddio newydd yn fframwaith trydyddol ar gyfer Cymru gyfan sy'n dwyn ynghyd ddisgwyliadau ynglŷn ag ansawdd, cyfle cyfartal, lles dysgwyr a staff, y Gymraeg, llywodraethu a chynaliadwydd ariannol. Mae'r system hon yn galluogi goruchwyliaeth gyson gan ddarparu ar gyfer ymyrraeth gymesur, sy'n seiliedig ar risg lle cyfyd materion. Mae'n cynnwys manylion ein dull rheoleiddio, ein pwerau ymyrryd a'r fframwaith rheoleiddio llawn gan hefyd nodi'r amodau cofrestru neu gyllid a Fframwaith Ansawdd ar gyfer addysg drydyddol yn ogystal â Chod Ymgysylltu â Dysgwyr.



Yn aml, gall rheoleiddio deimlo'n weithdrefnol, ond bydd y fframwaith hwn ar gyfer y sector addysg drydyddol cyfan – y cyntaf o'i fath yn y DU – yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol parhaol i bob rhan o'n sector addysg drydyddol.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am yr wybodaeth a'r adborth a gynigiwyd gan ddysgwyr, darparwyr a phartïon â buddiant drwy gydol y broses hyd yma ac, er bod hyn yn garreg filltir bwysig, nid dyma ddiwedd y daith o bell ffordd. Mae'r sector yn parhau i ddatblygu, a byddwn yn adolygu ein dull rheoleiddio yn barhaus er mwyn iddo allu datblygu yn unol ag ef.

Drwy gyhoeddi'r fframwaith rheoleiddio trylwyr a phellgyrhaeddol hwn, bydd modd i'r daith sy'n datblygu bob yn dipyn tuag at ddull rheoleiddio tecach, mwy cyson a seiliedig-ar-ganlyniadau ar gyfer y sector addysg drydyddol yng Nghymru ddechrau o ddifrif nawr.



Bethan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Dadansoddi yn Medr

Partneriaeth gymdeithasol

Yn Medr mae ein perthynas â'r undebau llafur yn un o bartneriaeth. Gan gydnabod pa mor werthfawr y gall deialog adeiladol fod, rydym wedi mynd ati'n gyflym i sefydlu ein strwythurau partneriaeth gymdeithasol mewnol ni ein hunain.

A ninnau wedi dod yn un o'r cyrff cyntaf yng Nghymru i ddod i gonsensws gydag undebau llafur ynghylch ein hamcanion llesiant yn unol â nodau partneriaeth gymdeithasol Llywodraeth Cymru, rydym bellach wedi ymrwymo i gytundeb Partneriaeth Gymdeithasol ffurfiol hefyd, a grëwyd ar y cyd gyda'n hundeb llafur cydnabyddedig, PCS (Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a

Masnachol). Fel rhan o'n trefniadau parhaus ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â PCS yn ein fforwm partneriaeth gymdeithasol lle'r ydym yn trafod ystod o faterion sy'n effeithio ar ein gweithlu a blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad.

Mae'r cytundeb yn gwreiddio cydweithio ystyrlon rhwng Medr a chynrychiolwyr cyflogaion ac mae wedi'i fwriadu i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch materion cyflogaeth ac arferion sefydliadol.

Roedd yn dda gennym ddod i gonsensws gyda PCS ar ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2025-26.

Meithrin gallu mewnol


Yn fewnol, rydym wedi parhau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oeddem yn weithredol, yn anad dim trwy barhau i recriwtio arbenigedd a chapasiti i'n helpu i gyrraedd ein nodau. Mae hyn wedi digwydd ar draws pob lefel yn Medr, gan gynnwys ar lefel Uwch Arweinwyr, gyda Bethan Evans a Francesca Hill yn ymuno mewn rolau Gweithredol.

Mae arolwg staff cyntaf Medr, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn adlewyrchu gweithlu ymgysylltiol ac adeiladol (cyfradd ymateb o 82%), aliniad cryf â Diben (95%) a sgoriau uchel mewn awtonomiaeth (93%), ymddiriedaeth (90%), a bod yn agored i syniadau (90%). Fe adnabu'r arolwg hefyd anghysonderau lle mae ein diwylliant yn dal i ymffurfio, ac angen i flaenoriaethu gweithgarwch yn fwy eglur. Ers hynny rydym wedi cynnal rhagor o sesiynau adborth a gweithdai er mwyn myfyrio ynghylch yr arolwg yn ei gyfanrwydd a gwneud gwelliannau lle adnabuwyd rhai.

O ran ein ffyrdd o weithio, rydym wedi parhau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oeddem yn weithredol, yn anad dim trwy adolygu a meincnodi prosesau ac arferion wrth i'n cylch gwaith barhau i dyfu. Enghraifft o hyn yw bod [y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi asesu ein bod wedi sefydlu sylfaen gref fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol newydd](#). Rydym yn gweithio yn awr i fabwysiadu saith gofyniad yn rhagor i ennill achrediad ystadegau swyddogol ar gyfer cyhoeddiadau ystadegol allweddol.

Nod strategol 1

Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.



Mae llwyddiant i Medr yn golygu creu'r amodau lle gall pob dysgwr ffynnu. Rydym mewn sefyllfa unigryw i allu gwneud hyn o safbwynt y sector trydyddol cyfan, gan weithio gyda'r sector, yn ogystal â dwyn darparwyr i gyfrif – i ysgogi cydweithio, arloesi ac arfer gorau.

Cyfle cyfartal

Un o'n huchelgeisiau hirdymor yw creu cyfleoedd mwy teg ar gyfer dysgwyr. Eleni, fe gymeron ni gam arwyddocaol ymlaen tuag at yr uchelgais hwn trwy greu'r amod Cyfle Cyfartal fel rhan o'n fframwaith rheoleiddio.

Bydd yr amod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr trydyddol gyflawni deilliannau mesuradwy sydd wedi'u bwriadu i wella cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, cefnogi dilyniant ar gyfer y dysgwyr hynny, a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad. Mae hyn yn nodi dull cydlynus ar draws ein holl ddarparwyr sy'n ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio, gan sicrhau ein bod ni fel sector yn symud yn yr un cyfeiriad: yn cefnogi rhagor o bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad at addysg drydyddol a llwyddo ynddi.

Mae ein huchelgais i hybu cyfleoedd teg wedi cael ei ategu hefyd gan fuddsoddi parhaus yn y rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach, sy'n dwyn ynghyd awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion ac ysgolion i gefnogi dilyniant i mewn i addysg uwch o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol trwy godi dyheadau addysgol. Eleni, fe gefnogodd Medr fath newydd o ddarpariaeth o fewn

y rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach gyda gweithgareddau ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar bontio o Flwyddyn 11 i mewn i addysg drydyddol.

I gryfhau'r gwaith hwn, rydym wrthi'n cynnal gwerthusiad allanol o'n dull. Bydd canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad hwn yn goleuo datblygiad canllawiau yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac effaith ar gyfer 2027/28.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae Medr yn dal i adrodd ar gynnydd addysg uwch ac addysg bellach yn erbyn [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru](#). Mae Medr wedi cynnal momentwm trwy neilltuo cyllid ar gyfer gwaith gwrth-hiliaeth ar draws AB ac AU. O ganlyniad i fuddsoddiad eleni dyfarnwyd [Gwobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE](#) i'r holl brifysgolion yng Nghymru. Mae'r gamp arwyddocaol hon yn dangos ymrwymiad y sector addysg uwch i ddod yn brifysgolion gwrth-hiliol. Mewn addysg bellach, fe barhaodd Medr i gyllido a monitro prosiect y cwricwlwm gwrth-hiliol ac fe ddarparodd gyllid ychwanegol i gefnogi arweinyddiaeth a llywodraethu gwrth-hiliol.

Llesiant staff a dysgwyr

Rydym wedi cryfhau ac ehangu ein gwaith i gefnogi llesiant mewn addysg drydyddol ar draws ein dulliau rheoleiddio a chyllido.

Bydd datblygu a chyhoeddi ein hamod rheoleiddiol sy'n ymwneud â Lles Dysgwyr a Staff yn golygu bod darparwyr yn cynnal hunanwerthusiad o'u trefniadau i gefnogi lles, cyn datblygu cynlluniau gweithredu dwy flynedd a fydd wedi'u bwriadu i ymdrin ag unrhyw fylchau neu risgiau y maent yn eu hadnabod.

Ategir y dull rheoleiddio hwn gan ein buddsoddiad parhaus yng ngweithgarwch darparwyr, i gefnogi iechyd meddwl a llesiant staff a dysgwyr, a gwaith cenedlaethol sydd wedi'i fwriadu i ddefnyddio cydweithio a chydymdrechu i ymdrin â rhai o'r pwysau sylweddol y mae darparwyr yn eu hwynebu wrth gefnogi llesiant.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ehangu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Iechyd Meddwl Genedlaethol a arweinir gan Brifysgol Caerdydd, sy'n gweithio ar draws addysg bellach ac uwch i wella'r modd y cesglir data ar fyfyrwyr sy'n ymglyfwno â materion iechyd meddwl a gwella llwybrau atgyfeirio i mewn i'r GIG, yn ogystal â chyllido'r prosiect myf.cymru, sy'n darparu adnoddau iechyd meddwl a llesiant Cymraeg i fyfyrwyr ac sydd wedi sefydlu rhwydwaith o therapyddion ac ymarferwyr Cymraeg i gefnogi a hyfforddi staff ar draws addysg bellach ac uwch. Fe fuddsoddodd Medr hefyd mewn gweithgarwch helaeth i wella gweithgareddau atal hunanladdiad ar draws addysg drydyddol gan gynnwys trwy'r gymuned ymarfer genedlaethol.

Trais Yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae Medr yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y sector trydyddol. Rydym wedi cyd-greu pecyn cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i brifysgolion, a ddatblygwyd gydag Iechyd y Cyhoedd ac Ymgynghorydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ymdrin ag anghysonderau yn y sector o ran terminoleg, casglu data a hyfforddiant. Mae Medr wedi darparu buddsoddiad ar gyfer AU i gyflawni prosiect trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n ceisio cryfhau arferion trwy hyfforddiant a chymorth estynedig, gwella'r modd y cesglir data, a datblygu rhwydwaith ymarferwyr cenedlaethol Cymru gyfan. Hefyd, fe fuddsoddodd ni yng Ngham 2 y prosiect cam-drin rhwng cymheiriaid a arweinir gan Colegau Cymru. Mae'r prosiect yn adeiladu ar safoni categorïau data ar gyfer adrodd, gwreiddio adnoddau a fframwaith a datblygu man a rennir ar gyfer cydweithio.

Cod Ymgysylltu â Dysgwyr / Llais y Dysgwr

Mae cynnwys dysgwyr mewn prosesau penderfynu'n un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i ddarparwyr adnabod sut y gallant wella. Mae'n cydnabod arbenigedd a phrofiad dysgwyr eu hunain ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau a gwneud cyfraniad i'w haddysg sydd o fudd iddynt hwy ac i ddysgwyr yn y dyfodol.

I gynorthwyo darparwyr i gryfhau sut y maent yn cynnwys dysgwyr, ac i roi i ddysgwyr ymdeimlad mwy eglur o'r disgwyliadau sydd gennym o ddarparwyr, rydym wedi datblygu'r [Cod Ymgysylltu â Dysgwyr](#), sy'n rhan allweddol o'r dull rheoleiddio newydd. Mae'r Cod, a danategir gan set o egwyddorion a gydgyhyrchwyd gyda dysgwyr, yn amcanu at sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, eu bod yn cael cyfleoedd i rannu eu barn, a'u bod yn gallu cyfranogi'n ystyrlon ym mhrosesau penderfynu eu darparwyr. Gyda ffocws ar effaith ymgysylltiad â dysgwyr

wrth wneud penderfyniadau, mae'r Cod yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth y sector a'i ddysgwyr a'r ystod o fecanweithiau sy'n galluogi ac yn cefnogi ymgysylltiad â dysgwyr sy'n cael effaith fawr.

Fe wnaethom gydweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector gan gynnwys dysgwyr, staff darparwyr a grwpiau sy'n eu cynrychioli i ddatblygu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Trwy gyfres o drafodaethau, gweithdai a chyfleoedd i gael adborth, mae rhanddeiliaid wedi siapio datblygiad y Cod yn ystod pob cam.

Bydd y Cod yn berthnasol i bob rhan o'r sector addysg drydyddol ac fe'i datblygwyd fel rhan o ddarn ehangach o waith ar ein system reoleiddio newydd. Bydd yn berthnasol i ddarparwyr cofrestredig a darparwyr a gyllidir trwy amodau'r fframwaith rheoleiddio ac i chweched dosbarth mewn ysgolion fel dyletswydd statudol, a nodir hefyd mewn deddfwriaeth.



Mae ymgysylltu â dysgwyr yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei arwain gan anghenion dysgwyr; felly nid oes un dull "cywir" o ymgysylltu â dysgwyr, yn enwedig yn y sector addysg drydyddol sy'n cwmpasu ystod amrywiol o ddysgwyr a lleoliadau. Mae Medr yn rhoi anogaeth i arloesi wrth ymgysylltu â dysgwyr er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a darparwyr, ac i ysgogi gwelliant parhaus.



Llais y dysgwr yn Medr

Rydym wastad wedi bod yn glir, yn union fel yr ydym ni'n disgwyl i ddarparwyr gynnwys dysgwyr mewn modd ystyrlon, bod rhaid i ninnau sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i farn a phrofiadau dysgwyr oleuo ein gwaith ni. Yn ystod ein hail flwyddyn, rydym wedi gwneud cynnydd cryf o ran datblygu dull Fforwm Llais y Dysgwr sy'n adlewyrchu amrywiaeth y sector trydyddol a phrofiadau personol dysgwyr. Yn hytrach na dibynnu ar un fforwm ffurfiol, rydym wedi gweithio gyda dysgwyr a phartneriaid allweddol i beilota ystod o fecanweithiau ymgysylltu, gan ein galluogi i gael mewnwelediad ystyrlon gan wahanol grwpiau, deall effaith ein polisiâu yn y byd go iawn, ac adnabod canlyniadau anfwriadol posibl ar adeg gynnar.

Mae gwaith eleni wedi canolbwyntio ar brofi a datblygu'r dulliau hyn ochr yn ochr â sefydliadau megis UCM Cymru a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, gan hefyd ddechrau meithrin capasiti lle nad oes strwythurau cynrychioli'n bodoli eto. Mae'r cynlluniau peilot hyn yn siapio model esblygol, cymesur ar gyfer llais y dysgwr – un a fydd yn ei gwneud yn bosibl i farn dysgwyr ledled Cymru gael ei gwreiddio'n gyson ac yn gredadwy ar draws gweithgarwch Medr o ran datblygu polisi, ei gyflawni ac adrodd arno.

Prentisiaethau iau

Rydym hefyd yn gyfrifol am gyflawni mewn un maes y tu allan i addysg drydyddol – prentisiaethau iau. Mae ehangu'r rhaglen prentisiaethau iau yn ystod 2025/26 yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gryfhau cyfranogiad ac atal ymddieithrio. Mae prentisiaethau iau yn darparu llwybr ystyrlon i ddysgwyr 14-16 oed a fyddai fel arall yn gallu wynebu risg o ymddieithrio oddi wrth addysg er mwyn iddynt allu camu ymlaen at addysg bellach, prentisiaeth a chyflogaeth.

Gyda chymorth buddsoddiad o £600k, fe wnaethom gydweithio'n agos gyda cholegau ac awdurdodau lleol i ehangu darpariaeth prentisiaethau iau ledled Cymru, gan gynyddu cyrhaeddiad daearyddol a'r dewis ar gyfer dysgwyr. Trwy gynorthwyo Grŵp Llandrillo Menai a Choleg y Cymoedd i gynnig llwybrau prentisiaethau iau galwedigaethol, ochr yn ochr â darpariaeth a oedd eisoes yn cael ei rhoi gan golegau eraill, fe wnaethom sicrhau bod mwy o ddisgyblion blwyddyn 10 a blwyddyn 11 yn gallu cael mynediad at ddysgu cysylltiedig â gwaith o ansawdd da ar y cyd â chymwysterau craidd. Mae rhaglenni'n cynnig llwybrau galwedigaethol ochr yn ochr â Chymraeg, Saesneg a Mathemateg, gyda phrofiad gwaith wedi'i gynnwys fel rhan o'r arlwy, ac maent wedi'u bwriadu i helpu dysgwyr i ailddarganfod hyder a llwyddo y tu hwnt i leoliadau ar ffurf ystafelloedd dosbarth traddodiadol.

Mae'r effaith ar ddysgwyr yn siarad drosti ei hun. Mae tystiolaeth gan ysgolion, colegau a dysgwyr eu hunain yn amlygu gwelliannau mewn presenoldeb, llesiant, hyder a dyhead, gan atgyfnerthu gwerth llwybrau galwedigaethol cynnar, â chymorth fel ran o system fwy cydlynus sy'n gweithio i ddysgwyr ac yn cefnogi dilyniant a chyfranogiad tymor hwy ledled Cymru.

Mae Izzy yn un o'r myfyrwyr a gafodd fudd o'r cynllun prentisiaethau iau:

"Before this provision I was bunking and not getting an education. I was a professional bunking student and never got taught.

"Now I care about coming on time, I have confidence, and I want to pass my GCSEs. I've made friends too – I never had friends before, just bunking buddies.

"I managed to score the best result I've ever had in maths, thanks to being here. It was the first time I was proud to show my results to my parents."

Sgiliau Byw'n Annibynnol

Rhoddodd Medr gomisiwn i Estyn i gynnal [adolygiad thematig o Sgiliau Byw'n Annibynnol](#) i archwilio datblygiadau ers yr adolygiad o Sgiliau Byw'n Annibynnol yn 2017 ac i helpu i oleuo cyfeiriad polisi at y dyfodol yn y maes hwn. Yn gryno, roedd canlyniadau'r adolygiad thematig yn cydnabod gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth Sgiliau Byw'n Annibynnol, yn enwedig o ran personoleiddio dysgu a gwella cydweithio, gan ddangos potensial y llwybr cyflogaeth â chymorth i weddnewid bywydau rhai dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad wedi'u hanelu at sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Mae dau argymhelliad yn rhai ar gyfer Medr, a adlewyrchir yn ein cynllun gweithredol, gyda gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo i'w rhoi ar waith.

Rôl a gweithgarwch Medr mewn darpariaeth chweched dosbarth

O 1 Ebrill 2026, fe ysgwyddom ni gyfrifoldebau statudol ffurfiol am ddarpariaeth chweched dosbarth yng Nghymru, fel a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae hyn yn nodi cam pwysig o ran gwneud y system ôl-16 yn fwy cydlynus, gyda Medr bellach yn cyflawni rôl ganolog o ran sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth chweched dosbarth yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun ehangach sy'n cwmpasu'r sector trydyddol cyfan.

Fel rhan o'r rôl hon, mae Medr yn gweithredu fel ymgynghorai statudol ar unrhyw gynigion i sefydlu darpariaeth chweched dosbarth, ei chau, neu wneud newidiadau sylweddol iddi mewn ysgolion a gynhelir, sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyr. Wrth wneud hynny, rydym yn darparu ymateb sylweddol, seiliedig-ar-dystiolaeth i sicrhau bod cynigion yn cyd-fynd

â'n blaenoriaethau strategol ni ac yn cyfrannu at dirwedd ôl-16 fwy cydlynus a chynaliadwy.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn rhoi pwerau i Medr ei gwneud hi'n ofynnol, lle y bo angen, i awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ddwyn cynigion gerbron mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, gan gynnwys newidiadau i gapasiti neu strwythur. Er bod y pwerau hyn yn bodoli mewn deddfwriaeth nid ydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa lle rhagwelir defnyddio ymyriadau o'r fath.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r cyfrifoldeb am ffurfio'r cwricwla lleol 16-18 wedi trosglwyddo o Weinidogion Cymru i Medr dan y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, gan gryfhau ein rôl o ran siapio'r arlwy ar gyfer dysgwyr ar draws y system ymhellach.

Hyd yma, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar osod y sylfeini y mae eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol ac yn gydweithredol. Rydym wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau statudol ar gwricwla lleol 16-18, yr ymgynghorwyd yn eu cylch ac y disgwylir eu cyhoeddi yn haf 2026. Ar yr un pryd, rydym wedi sefydlu ein rôl o fewn y broses trefniadaeth ysgolion, gan sicrhau ein bod yn barod i ddarparu mewnbyn amserol, cadarn ac adeiladol fel ymgynghorai statudol.

Un o'r blaenoriaethau allweddol fu hybu ymgysylltu cynnar ag awdurdodau lleol a phartneriaid. Trwy roi anogaeth i gael trafodaethau ar yr adegau cynharaf wrth ddatblygu cynigion, rydym yn helpu i wella ansawdd, cydlynad ac aliniad strategol cynlluniau sy'n dod i'r amlwg cyn yr ymgynghorir yn ffurfiol arnynt. I ategu hyn ymhellach, rydym wedi dechrau datblygu canllawiau fframwaith, a fydd yn cael eu creu ar y cyd gyda rhanddeiliaid ledled Cymru. Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu awdurdodau lleol i siapio cynigion sydd wedi'u gwreiddio mewn

tystiolaeth gref, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Medr, ac sy'n ymatebol i anghenion hirdymor dysgwyr a chymunedau.


Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn hefyd yn cynnal ymarfer llinell sylfaen ar lefel genedlaethol yn ystod blwyddyn academiaidd 2026/27 i fapio trefniadau cwricwlwm lleol ledled Cymru. Bydd hyn yn darparu darlun mwy eglur o'r ddarpariaeth gyfredol ac yn goleuo datblygiad polisi a chanllawiau ar gyfer addysg 16-18 yn y dyfodol.

Ein dull drwyddi draw yw gweithio'n gydweithredol ac yn rhagweithiol. Rydym yn amcanu at roi cymorth a her sy'n adeiladol ar adeg gynnar, helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion cydlynus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o safbwynt hirdymor, system-gyfan. Uwchlaw popeth, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod anghenion a deilliannau dysgwyr yn ganolog bob amser.

Drwy'r gwaith hwn, rydym yn cyflawni rôl allweddol o ran creu system addysg drydyddol gydgysylltiedig a chynaliadwy i Gymru, yn unol â'n huchelgeisiau strategol ehangach.

Nod strategol 2

Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgyssylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.



Mae gan Medr rôl ganolog o ran cryfhau twf seiliedig-ar-le ledled Cymru trwy sicrhau bod addysg drydyddol, sgiliau, ymchwil ac arloesi'n cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Trwy ein pwerau cyllido a rheoleiddio, rydym yn cynorthwyo darparwyr i weithredu fel angorau dinesig yn eu cymunedau, gan gydweithio'n agos gyda chyflogwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid i ymdrin ag anghenion sgiliau lleol, ysgogi arloesi a chyfrannu at ddatblygu economaidd rhanbarthol gan gydnabod y ceir yr effaith fwyaf pan fo sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd a chyda'u cymunedau yn hytrach nag ar wahân. Mae ystyried materion o safbwynt y sector trydyddol cyfan a Chymru gyfan yn ein galluogi i gysylltu cryfderau lleol â chyfleoedd ehangach, gan sicrhau bod dysgwyr a chymunedau'n gallu cael budd o dwf ble bynnag y mae'n digwydd.

Fe ddaethom â darparwyr addysg bellach ac uwch ynghyd i archwilio cyfleoedd ar gyfer ymchwil ac arloesi mewn datblygu economaidd rhanbarthol. Fe wnaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Uchelgais Gogledd Cymru rannu gwersi a ddysgwyd o gamau cynnar Cronfa Partneriaethau Arloesi Lleol Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a'r Parthau Buddsoddi. Fe wnaethom ystyried rôl Medr o ran galluogi cydweithio effeithiol o fewn rhanbarthau, gan gynnwys o ran cydgysylltu ymchwil ac arloesi â'r cyflenwad o sgiliau.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r Cydbwyllgorau Corfforedig sy'n dod i'r fei i ddeall anghenion o ran sgiliau ar bob lefel. Mae ein perthynas sy'n cryfhau'n ein galluogi i gydweithio i adnabod sut y gall mathau eraill o fuddsoddiad sy'n dod i mewn i Gymru, megis y Parthau Buddsoddi, ategu cyllid craidd Medr, i ddiwallu anghenion y rhanbarth yn y ffordd orau a chyfrannu at dwf economaidd.

Deall tirwedd darpariaeth drydyddol

Mae mewnwelediad yn ganolog i'n rôl, gan ein galluogi i ddeall sut y mae'r system drydyddol yn gweithio, ble y mae wedi'i chamalinio, a ble y mae ymyrryd neu gydweithio'n gallu ychwanegu'r mwyaf o werth i dysgwyr ac i Gymru.

Yn ystod o flwyddyn, fe wnaethom gryfhau ein sylfaen dystiolaeth ar lefel y system, gan atgyfnerthu ein galluedd o ran mewnwelediadau a'n galluogi i ddadansoddi'n fwy trylwyr ble a sut y dylem ganolbwyntio ein hadnoddau.

Un o'r enghreifftiau cynnar o hyn yw cyhoeddi [Pynciau astudio: y galw am feysydd pwnc, eu darpariaeth a'u dosbarthiad ar draws addysg uwch yng Nghymru](#). Daeth y dadansoddiad hwn â setiau data lluosog ynghyd am y tro cyntaf – gan gynnwys cofrestrïadau Safon Uwch, data ymgeiswyr UCAS a cheisiadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 – i ddarparu darlun mwy cyfoethog o'r galw ymhlith dysgwyr, y pynciau a ddarperir a chrynodiad ymchwil. Mae'r gwaith o gymorth i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch cynaliadwyedd, dewis ar gyfer dysgwyr a siâp y ddarpariaeth yn y dyfodol, ac mae'n dangos ein hymrwymiad i ddefnyddio tystiolaeth yn dryloyw i roi cymorth i gynllunio dros y tymor hir yn hytrach nag adweithio yn y tymor byr.

Ochr yn ochr â dadansoddi cenedlaethol, rydym wedi dechrau datblygu dull mwy gronynnog o ddadansoddi darpariaeth drydyddol, gan beilota gwaith a wreiddiwyd yn rhanbarthol sy'n dwyn ynghyd ddata meintiol a gwybodaeth am y system leol. Mae'r dull hwn yn tynnu ar ddata ar ddysgwyr, rhagolygon ynghylch sgiliau a mewnwelediad gan gyflogwyr i ddeall y galw, y ddarpariaeth a dilyniant ar draws llwybrau galwedigaethol ac academiaidd.

Ymgynghori ynghylch rhaglen brentisiaeth newydd

Yn ystod mis Medi a mis Hydref 2025, fe arweiniodd ni ymgynghoriad cenedlaethol ynghylch dyfodol prentisiaethau yng Nghymru. Trwy gydol y broses hon fe ymgysylltom ni'n eang â dysgwyr, cyflogwyr a phartneriaid darparu ledled Cymru. Fe wnaeth y lefel gref o gyfranogiad ac adborth gadarnhau cryfderau sylfaenol y rhaglen brentisiaethau gyfredol, gan hefyd ddarparu tystiolaeth glir o ble y mae angen newid i gefnogi dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach yn well. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad, a [gyhoeddwyd](#) ym mis Chwefror 2026, wedi rhoi inni sylfaen gadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weithredu ac wedi atgyfnerthu pwysigrwydd prentisiaethau fel llwybr o ansawdd da i mewn i gyflogaeth grefftus a dilyniant.

Mae'r ymgynghoriad wedi siapio set eglur o flaenoriaethau ar gyfer gwella, gyda phwyslais cryf ar hyblygrwydd, cynhwysiant ac effaith. Fe amlygodd rhanddeiliaid yr angen i ddarparu'r rhaglen mewn modd mwy ystwyth sy'n gallu ymateb i newid economaidd, llwybrau dilyniant cryfach ar draws lefelau prentisiaeth ac i mewn i addysg drydyddol ehangach, a chymorth gwell i ddysgwyr a chyflogwyr – yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBChau). Roedd cefnogaeth gref hefyd i ehangu darpariaeth ddwyieithog ac ehangu cyfranogiad fel bod prentisiaethau'n hygyrch, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn effeithiol i bobl o bob oed a chefnidir. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn rhoi arweiniad i ni ar gyfer y cam datblygu nesaf, i sicrhau bod prentisiaethau'n parhau i ddiwallu anghenion Cymru o ran sgiliau gan hefyd ddwyn manteision parhaus i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau.

Cenhadaeth ddinesig, a chefnogi cymunedau

Un o'n dyletswyddau strategol yw sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, trwy weithgarwch cenhadaeth ddinesig sy'n mynd y tu hwnt i addysg ac ymchwil graidd.

Dylai ein sefydliadau addysg drydyddol ac ymchwil fod yn rhan ganolog o'r cymunedau lleol a rhanbarthol y maent wedi'u lleoli ynddynt, a dylai darparwyr rannu eu gwybodaeth er budd y cymunedau hyn ac ymgysylltu â hwy yn y broses o greu gwybodaeth, gan hybu cydlyniant cymdeithasol, ehangu mynediad at gyfleoedd a chefnogi mwy o ffyniant.

Mae ein cymorth i [Bartneriaethau Ymgysylltu Dinesig Rhanbarthol](#) wedi galluogi ein colegau a phrifysgolion i ddod ynghyd i ddatblygu datrysiadau cyfunol i heriau cyffredin, gan ddefnyddio dull strategol o gyflawni eu rôl ddinesig, yn seiliedig ar anghenion cymunedau.

Fe wnaeth [Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig De Cymru](#), sy'n dwyn ynghyd y 10 sefydliad addysg drydyddol sy'n gweithredu ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, ddefnyddio'r cyllid gan yartneriaeth ranbarthol i fuddsoddi mewn prosiectau dinesig cydweithredol sy'n cynorthwyo cymunedau i wireddu dyheadau. Roedd effeithiau'r prosiectau'n cynnwys cynyddu hyder mewn llythrennedd a gwyddoniaeth ymhlith plant ysgol, codi dyheadau ymhlith plant ysgol gynradd i ddilyn gyrfaedd ym maes STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg), ac ennyn ymgysylltiad dysgwyr â dinasyddiaeth weithredol ar draws y Brifddinas-Ranbarth.

Mae'r sector addysg drydyddol ac ymchwil nid yn unig yn cyflawni dros gymunedau ledled Cymru heddiw, ond mae hefyd yn arfogi dysgwyr â'r sgiliau, yr hyder a'r uchelgais i gyfrannu mewn modd ystyrlon i ffyniant a llesiant eu cymunedau eu hunain yn y dyfodol. Er enghraifft, mae ein buddsoddiad wedi cynorthwyo prosiect [Prifysgol y Plant](#) yng ngogledd Cymru i ymdrin â'r angen am fwy o gyfle cyfartal. Mae'r prosiect yn annog dysgwyr i ymwneud â chyfleoedd ymgysylltu a gwirfoddoli allgyrsiol, gan gydnabod eu llwyddiant trwy seremonïau graddio, gan rymuso dysgwyr i gamu i'r adwy a gweithredu dros eu cymunedau a'u dyfodol hwy eu hunain.

Mae Medr hefyd yn gyfrifol am gefnogi prosiectau dinesig, a [ddathlwyd](#) yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Ionawr 2026. Mae hyn yn cynnwys prosiectau treftadaeth gyhoeddus ac adfywio cymunedol, prosiectau i helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a phrosiectau sy'n cynorthwyo pobl leol i ddod ynghyd i greu Cymru iachach, fwy cydlynus a chydnerth.

Mae'r rhain yn rhai enghreifftiau yn unig o sut yr ydym yn cynorthwyo'r sector i weithio gyda'i gilydd a chyda chymunedau i roi cymorth i ddatblygu sgiliau, hybu llesiant a datblygu dysgwyr ag anian ddinesig.

Nod strategol 3

Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymagnio i wella'n barhaus.



Yn Medr mae'n amlwg i ni y gall ehangder ein pwerau cyllido a rheoleiddio gael effaith gadarnhaol, barhaus ar ddysgwyr ble bynnag y bônt yn y system addysg drydyddol a beth bynnag fo'u llwybr.

Eleni, mae'r cyllid a fuddsoddwyd gennym wedi cyrraedd oddeutu 324,000 o ddysgwyr ledled Cymru. Mae hyrwyddo arfer da a helpu i godi safonau i bawb yn y system drydyddol yn flaenoriaeth amlwg ar draws ein gwaith.

Dysgwyr yn ôl y math o ddysgu a darparwr, blwyddyn academiaidd 2024/25

Cyfanswm y dysgwyr mewn addysg drydyddol yng Nghymru
324k



Colegau
addysg
bellach

128k



Darparwyr
addysg
uwch

142k



Darparwyr
hyfforddiant
preifat

24k



Dysgu
cymunedol
awdurdodau
lleol

13k



Chweched
dosbarth
mewn
ysgolion

21k

Mae'r ffigurau'n gywir ar sail mis Ionawr 2026 ac wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf. Gall rhai dysgwyr gofrestru gyda mwy nag un math o ddarparwr. Dim ond unwaith y cânt eu cyfrif yn y cyfanswm.

Goruchwyliaeth ar ansawdd a gwella'n barhaus

Fe ddarparom ni oruchwyliaeth barhaus ar ansawdd addysg drydyddol a sut yr oedd darparwyr yn cefnogi gwelliant parhaus yn eu darpariaeth.

Wrth wraidd ein dull mae'r amod rheoleiddiol newydd ar gyfer Ansawdd a Gwella'n Barhaus sy'n nodi'r gofyniad i ddarparwyr ddangos ansawdd da. Mae'r amod yn manylu ar y ffyrdd y byddwn yn asesu cydymffurfedd â'r amod gan gynnwys trwy ddata ac adolygu allanol, ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ystyried ein [Fframwaith Ansawdd](#) newydd.

Trwy ein perthnasoedd ag Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), fe wnaethom gefnogi'r cylch parhaus o arolygu ac adolygu darpariaeth. Rydym hefyd wedi cefnogi gwaith sydd wedi cryfhau, lle'r oedd yn fuddiol, aliniad rhwng gwahanol rannau o'r sector trydyddol gan gynnwys gwaith parhaus i sefydlu egwyddorion hunanwerthuso a rennir.

Mae ein Pwyllgor Ansawdd statudol wedi ystyried a rhoi cyngor ynghylch materion ansawdd dros y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor wedi goleuo datblygiad nodweddion allweddol ar y fframwaith rheoleiddio newydd gan gynnwys yr amod ar gyfer Ansawdd a Gwella'n Barhaus, y Fframwaith Ansawdd a Chynlluniau Diogelu Dysgwyr, ynghyd â'r gwaith parhaus i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer darparwyr ac ymgynghori yn eu cylch.

Fframwaith Ansawdd

Un o'r cyfleoedd y mae ffurfio Medr wedi'u creu yw ein gallu i ddwyn mwy o gydlyniant ac aliniad i'r ffyrdd y caiff ansawdd addysg drydyddol ei sicrhau, ei asesu a'i wella.

Ym mis Ebrill 2026, yn dilyn ymgynghori helaeth â'r sector a dysgwyr, fe gyhoeddom ni ein Fframwaith Ansawdd, elfen allweddol o'n system reoleiddio newydd sy'n nodi ffyrdd y gall darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant ddangos eu bod yn ateb gofynion ein hamod rheoleiddiol ar gyfer ansawdd a gwella'n barhaus.

Mae 7 conglfaen i'r Fframwaith sydd, yn ein tyb ni, yn cefnogi deilliannau da ar gyfer dysgwyr: ymgysylltu â dysgwyr, llais y dysgwr, ymgysylltu â'r corff llywodraethu, hunanwerthuso, allanoldeb, gwella'n barhaus a datblygu proffesiynol.

Mae'r Fframwaith wedi'i fwriadu i hybu profiad cyson o ansawdd da i'r holl ddysgwyr gan hefyd ategu gwelliant parhaus ar draws darparwyr, gan symud y tu hwnt i gydymffurfio yn unig i ymgais am ragoriaeth a dyheadau uchel ar gyfer dysgwyr.

Ymhen hir a hwyr byddem yn disgwyl gweld y Fframwaith Ansawdd a'r eglurder y mae'n ei gynnig yn siapio ac yn goleuo datblygiadau yn y dyfodol: boed hynny o ran y ffyrdd y mae darparwyr yn ystyried sut y gallant wella neu yn natblygiad y dulliau sicrhau ansawdd a arweinir gan Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y fframwaith, y cod ymgysylltu â dysgwyr a sut y mae hynny i gyd yn perthyn o fewn y dirwedd reoleiddiol ar [wefan Medr](#).

Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

Pan fo dysgwyr yn dewis ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, maent yn gwneud hynny yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael iddynt a sut y bydd y ddarpariaeth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, weithiau mae amgylchiadau'n newid boed yn bethau y tu hwnt i reolaeth y darparwr neu'n benderfyniadau y mae'r darparwr yn eu gwneud mewn perthynas â sut y darperir cwrs.

Yr hyn sy'n bwysig i Medr yw bod dysgwyr yn gallu cwblhau'r rhaglenni astudio y maent wedi'u cofrestru arnynt. Yn 2025-26 fe wnaethom ymgynghori ar ein hamod ar gyfer Cynlluniau Diogelu Dysgwyr a chanllawiau statudol i ategu'r amod a chyhoeddi'r rhain. Mae ein canllawiau'n nodi'r amgylchiadau lle gallwn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwr gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr.

Rydym yn disgwyl i'r defnydd o gynlluniau diogelu dysgwyr fod yn anghyffredin, a chyn ein bod yn ei gwneud yn ofynnol paratoi cynllun, byddwn yn gweithio gyda darparwr i ddeall pa gamau y maent yn eu cymryd a sut y maent yn ymgysylltu â dysgwyr ac yn eu cefnogi. Ond mae'r nodwedd hon ar ein fframwaith rheoleiddio'n sicrhau, pan fo angen, ein bod yn gallu gweithio gyda darparwr i warchod buddiannau dysgwyr a sicrhau eu bod yn gallu cwblhau eu haddysg neu hyfforddiant fel yr oeddent wedi gobeithio ei wneud pan wnaethant gofrestru.

Partneriaeth gymdeithasol ar draws y sector

Rydym hefyd yn ymrwymedig, fel a nodir yn ein Cynllun Strategol, i fynd ati'n weithredol i hybu partneriaeth gymdeithasol yn y sector, gan gydnabod bod cydweithio rhwng darparwr ac undebau llafur o fudd i'r ddwy ochr. Eleni, rydym wedi buddsoddi mewn cyfres o gynlluniau peilot partneriaeth

gymdeithasol mewn colegau addysg bellach, gan roi cymorth ymgynghoriaeth i helpu i ddatblygu modelau cydweithio sydd wedi'u teilwra i strwythur, anghenion a blaenoriaethau'r sefydliad unigol.

Hybu cydweithio rhwng darparwr ac undebau llafur

I roi cymorth i gyflawni ein hymrwymiad, fe gynhaliom ni gynhadledd partneriaeth gymdeithasol ym mis Mehefin 2025 a oedd yn agored i'r holl undebau llafur, darparwr a rhanddeiliaid perthnasol ar draws addysg drydyddol.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i gyfleu negeseuon allweddol am werth cydweithio ac i ymgysylltu â'r sector, trwy weithdai, i fynd ati ar y cyd i ddatblygu rhaglen barhaus o gymorth i sicrhau bod anghenion y sector trydyddol yn cael eu diwallu.

Roedd hefyd yn gyfle i glywed yn arbennig gan ddarparwr megis Coleg Cambria a Choleg y Cymoedd, sydd wedi bod yn peilota dulliau newydd o ymdrin â phartneriaeth gymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r enghreifftiau hyn o arfer da a gwersi a ddysgwyd, yn ogystal â deunyddiau cymorth, wedi cael eu cyhoeddi a'u lledaenu'n eang, gan ddarparu trosolwg o wahanol ddulliau o ymdrin â phartneriaeth gymdeithasol mewn addysg bellach, ynghyd ag adnoddau ac astudiaethau achos a gynhyrchwyd o brosiectau peilot blaenorol.

Datblygu'r gweithlu

I'n helpu i gyflawni ein hymrwymiad i gefnogi dysgu proffesiynol, fe wnaethom gomisiynu dwy astudiaeth a oedd wedi'u bwriadu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth fwy cynhwysfawr ar anghenion datblygu gweithlu'r sector trydyddol. Roedd y rhain yn cynnwys astudiaeth gwmpasu o ddysgu proffesiynol i archwilio'r trefniadau cyfredol ac anghenion y gweithlu trydyddol yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol, a chynigion ynghylch rhaglen arweinyddiaeth system i gefnogi cydweithio effeithiol ar draws y sector. Mae adroddiadau ar y naill a'r llall i fod i gael eu cyflwyno yn haf 2026, a byddant yn goleuo datblygiad ein cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth broffesiynol dros y blynyddoedd nesaf.

Nod strategol 4

Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.



Rydym yn gweithio i hybu a datblygu sylfaen ymchwil ffyniannus, ragorol trwy gefnogi diwylliannau ymchwil ac arloesi sy'n seiliedig ar barch, uniondeb a chynwysoldeb. Mae ein mecanweithiau cyllido'n darparu'r hyblygrwydd a'r awtonomiaeth i sefydliadau gyflawni ymchwil ac arloesi ag arwyddocâd yn y byd go iawn sydd â ffocws ar y deilliannau gorau i Gymru. Mae'r cyllid yr ydym yn ei fuddsoddi'n helpu i adeiladu ar hanes cryf Cymru o gyflawni ymchwil sy'n dwyn effaith gymdeithasol, economaidd a byd-eang ystyrlon, gan sicrhau bod ein prifysgolion yn parhau i fod o fudd i gymunedau gartref gan sicrhau yr un pryd bod ein cenedl yn dal i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol.

Amgylcheddau a diwylliannau ymchwil cadarnhaol

Rydym wedi parhau i gynorthwyo prifysgolion i ddatblygu amgylcheddau ymchwil gyda diwylliannau â ffocws ar uniondeb, amrywiaeth a llesiant sy'n gallu denu a chadw'r ymchwilwyr a'r arloeswyr gorau o bob rhan o'r byd trwy ein [Cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru](#). Ochr yn ochr â dyraniadau sefydliadol, trwy Gymdeithas Ddysgedig Cymru rydym wedi cefnogi menter grantiau bychain wedi'i thargedu i fuddsoddi mewn [rhwydweithiau](#) ar lawr gwlad a arweinir gan ymchwilwyr. Denodd yr alwad 73 o geisiadau, gydag 14 o brosiectau'n cael eu dethol i gael cymorth, gan gynnwys rhoi anogaeth i gynnwys grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio mewn ymchwil

i newid hinsawdd a rhwydwaith ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd ethnig leiafrifol. Mae Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) wedi sefydlu Rhwydwaith Technegwyr, gan ddwyn ynghyd unigolion sy'n hollbwysig i ymchwil ac arloesi llwyddiannus ond sy'n aml yn cael eu hanwybyddu gan fentrau sy'n canolbwyntio ar staff academiaidd.

O fewn Medr, rydym wedi creu gweithgor Ymchwilwyr Ôl-radd i gydgyssylltu datblygiad polisi sy'n gysylltiedig ag ymchwilwyr ac arloeswyr y dyfodol. Dangosodd ein gwaith i fapio darpariaeth pynciau addysg uwch fod cyfran y myfyrwyr ymchwil ôl-radd amser llawn yng Nghymru fel rhan o gyfanswm y DU wedi lleihau dros y pum mlynedd ddiwethaf i oddeutu 3%. Mae'r cyflenwad hwn yn hollbwysig i gynyddu maint a rhagoriaeth ein sylfaen ymchwil. Rydym wedi adeiladu ar ein buddsoddiad presennol yn Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru gyda chymorth cyfochrog i [Lles](#), consortiwm doethurol Cymru gyfan newydd ym maes y celfyddydau a'r dyniaethau.

Ar gyfer y ddau rwydwaith, mae buddsoddiadau ar raddfa gymharol fach gan Medr wedi ysgogi buddsoddiad hirdymor sylweddol gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI).

Gweithio mewn partneriaeth ledled y DU

Ymarfer ledled y DU i asesu ansawdd ymchwil a gyflawnwyd mewn sefydliadau addysg uwch yw'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), ac mae ei ddeilliannau'n rhoi arweiniad ar gyfer dosbarthu oddeutu £2 biliwn y flwyddyn o gyllid cyhoeddus a fuddsoddir mewn ymchwil yn y DU. Goruchwylir yr ymarfer ar y cyd gan bedwar corff cyllido addysg uwch y DU. Fel y corff cyllido yng Nghymru, mae gan Medr rôl allweddol o ran siapiaio dyluniad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a'r modd y'i cyflawnir, gan sicrhau bod blaenoriaethau, cryfderau a chyd-destun unigryw sector ymchwil Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn natblygiad yr ymarfer. Fe wnaeth tîm canolog y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gyhoeddi'r rhan fwyaf o'r canllawiau polisi lefel uchel a oedd yn weddill ar gyfer ymarfer 2029 ym mis Rhagfyr 2025, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â'r sector addysg uwch. Mae'r canllawiau terfynol yn cynnwys rhywfaint o symleiddio ar y cynigion gwreiddiol, sy'n adlewyrchu gwersi o beilot ar asesu pobl, diwylliant a'r amgylchedd, a'r cyfyngiadau ariannol cyfredol ar brifysgolion.

Fe weithiom ni gyda Chymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW) a Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) i annog ceisiadau ar gyfer paneli cynghori ac asesu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ac o ganlyniad cafodd 6% o arbenigwyr ar baneli disgyblaethol eu recriwtio o Gymru. Fe gynhaliom ni ddigwyddiad Cwrdd â'r Gymuned gyda Thîm y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ym mis Mawrth 2026 fel cyfle i arweinwyr ymchwilwyr o'r holl brifysgolion yng Nghymru gwrdd â phersonél allweddol a thrafod testunau gan gynnwys pwysigrwydd a chwmpas amrywiaeth ymchwil, a sut i sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant a chyd-destun Cymru'n cael eu hadlewyrchu yn y broses asesu.

Rydym wedi diweddarau ein perthynas ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) yn dilyn penodi eu Prif Weithredwr newydd. Fe ddarparom ni dystiolaeth am gryfderau ymchwil Cymru sy'n gysylltiedig â sectorau'r Strategaeth Ddiwydiannol, gan amlygu cyfleusterau a galluoedd unigryw sydd â'r potensial i greu twf economaidd. Rydym wedi bwydo i mewn i ddatblygiad strategaeth newydd Ymchwil ac Arloesi yn y DU ac rydym yn ymgysylltu'n barhaus i ategu dealltwriaeth am wahaniaethau ledled y DU i sicrhau y bydd y modd y cymhwysir eu dull cyllido newydd yn galluogi pob rhanbarth yng Nghymru i gael mynediad at gyfleoedd i gryfhau capasiti ar gyfer ymchwil ac arloesi sydd ar flaen y gad yn fyd-eang.

Arloesi ar gyfer twf cynhwysol

Mae [Rhwydwaith Arloesi Cymru](#) (WIN) yn dal i gael ei gyllido ar y cyd gan Medr a phrifysgolion, ac mae wedi symud i mewn i'w ail gyfnod, gan ganolbwyntio ar gryfhau cydweithio, masnacheiddio a diwylliant. Mae Rhwydwaith Arloesi Cymru'n galluogi prifysgolion i gydweithio ledled Cymru gyfan i greu màs critigol mewn meysydd sy'n flaenoriaeth, datblygu llifoedd o brosiectau cydweithredol, gwella cynaliadwyedd ymchwil a gwella prosiectau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol Cymru. Bydd Rhwydwaith Arloesi Cymru'n adeiladu ar sylfeini llwyddiannus ei gyfnod cyntaf, lle gwnaeth buddsoddiad cymharol fach o £2m ysgogi buddsoddiad ychwanegol o £38m. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiadau gan 31 o gyllidwyr gwahanol, gydag amrywiaethu ffynonellau incwm fel hyn yn hollbwysig i greu capasiti ymchwil ac arloesi cynaliadwy.

Mae Cymru'n parhau i ddangos rhagoriaeth o ran troi ymchwil yn fudd yn y byd go iawn, a enghreifftiwyd gan lwyddiant diweddar mewn cwmnïau deillio a masnacheiddio gan brifysgolion. Mae'r £107m o fuddsoddiad a sicrhawyd gan [Draig Therapeutics](#), a ddaeth i'r amlwg o ymchwil gan brifysgol yng Nghymru a danategwyd gan gyllid a gafodd gan Medr, yn enghraifft rymus o sut y gall ymchwil o ansawdd da ddenu buddsoddiad byd-eang, creu swyddi gwerth uchel a dwyn adenillion cymdeithasol ac economaidd sylweddol.

Er bod buddsoddiadau Medr yn rhan o dirwedd gyllido ehangach o lawer, mae ganddynt rôl alluogi bwysig – gan gefnogi'r amgylchedd ymchwil, y cyflenwad o dalent a gallu sefydliadol sy'n ei gwneud yn bosibl i arloesi o'r fath flodeuo. I'r perwyl hwn rydym hefyd wedi gweithio gyda chyrff cyllido eraill y DU i hwyluso camau i gynnwys tair prifysgol yng Nghymru ar restr o fabwysiadwyr arfer gorau o ran cwmnïau deillio.

Nod strategol 5

Hybu mwy o ddefnydd o'r
Gymraeg, gan gynyddu'r galw am,
a chyfranogiad mewn, dysgu ac
asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.



Addysg gyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc mewn addysg drydyddol – 2024/25

Safon Uwch
iaith gyntaf

200
2024/25

Safon UG
iaith gyntaf

345
2024/25

Safon Uwch
ail iaith

170
2024/25

Safon UG
ail iaith

280
2024/25

Canran y
gweithgareddau
a ddarparwyd yn
ddwyieithog neu
yn Gymraeg yn y
chweched dosbarth

21%
2024/25

Canran y
gweithgareddau
a ddarparwyd yn
ddwyieithog neu yn
Gymraeg mewn addysg
bellach, dysgu seiliedig-
ar-waith neu ddysgu
oedolion yn y gymuned

31%
2024/25

Canran y
gweithgareddau a
ddarparwyd gydag
ychydig bach o
Gymraeg mewn addysg
bellach, dysgu seiliedig-
ar-waith neu ddysgu
oedolion yn y gymuned

22%
2024/25

Canran y gweithgareddau
a ddarparwyd yn
ddwyieithog neu yn
Gymraeg yn y chweched
dosbarth, mewn addysg
bellach, dysgu seiliedig-
ar-waith neu ddysgu
oedolion yn y gymuned

29%
2024/25

Nodyn: Mae "a ddarparwyd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg" yn cynnwys "ychydig bach o Gymraeg"

Nifer y cofrestriadau addysg
uwch gyda rhwng 1 a 40 o
gredydau'n cael eu hastudio
trwy gyfrwng y Gymraeg*

3,275
2024/25

Nifer y cofrestriadau addysg
uwch gydag o leiaf 40 o
gredydau'n cael eu hastudio
trwy gyfrwng y Gymraeg*

2,445
2024/25

Nifer y cofrestriadau addysg
uwch ar lefel israddedig
sy'n gwneud Astudiaethau
Cymraeg**

280
2024/25

Datblygu Amod y Gymraeg

Mae Amod y Gymraeg gan Medr yn elfen ganolog o'n fframwaith rheoleiddio a chyllido ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau statudol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws addysg drydyddol ac ymchwil.

Cafodd datblygiad yr amod ei siapio trwy gydweithio agos gyda phartneriaid cenedlaethol allweddol, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sydd wedi'i ddynodi gan Weinidogion Cymru i roi cyngor statudol i Medr i'n helpu i gyflawni ein dyletswydd i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau aliniad rheoleiddiol â safonau perthnasol o fewn Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg i alinio ein prosesau casglu gwybodaeth a monitro, i leihau dyblygu a baich rheoleiddiol a chryfhau ein gwybodaeth reoleiddiol gyfunol.

Bydd amod y Gymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 yn dilyn ymgynghori sylweddol ar draws y sector, yn berthnasol fel amod cofrestru parhaus i'r holl ddarparwyr cofrestredig (ac eithrio chweched dosbarth mewn ysgolion) a, lle y bo'n berthnasol, mae'n amod cyllid. Bydd yr amod hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gymryd pob cam rhesymol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu'r galw am addysg, hyfforddiant ac ymchwil yn y Gymraeg, a chyfranogiad yn y rhain. Rydym yn rhagweld y bydd angen i ddarparwyr fod â'u strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn ei lle erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r ffurflen sicrwydd flynyddol ym mis Rhagfyr 2027. Dylai'r strategaethau hyn adlewyrchu cyfraniad y darparwr at y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n gynharach yn yr un flwyddyn.

Mae Amod y Gymraeg wedi'i fwriadu i roi cymorth i wella'n barhaus, gan gydnabod amrywiaeth cyd-destunau a mannau cychwyn darparwyr ar draws y sector. Disgwylir i ddarparwyr gynnal a gwerthuso strategaeth eglur ar gyfer y Gymraeg, dangos sut y caiff darpariaeth Gymraeg ei chynnal a'i datblygu, a sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at wybodaeth gywir a hygyrch am gyfleoedd i astudio ac ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cwmpas yr amod yn cynnwys addysgu, asesu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg, Cymraeg fel pwnc academiaidd, ac ymchwil sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg a pholisi'r Gymraeg.

Byddwn yn monitro cydymffurfedd trwy ddull cymesur, seiliedig-ar-risg, gan dynnu ar ffurflenni sicrwydd blynyddol, hunanwerthusiadau darparwyr (yn bennaf trwy gyhoeddi strategaethau darparwyr ar gyfer y Gymraeg), adborth dysgwyr, gwybodaeth a data sydd ar gael yn gyhoeddus, ochr yn ochr â gwybodaeth gan gyrff partner megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg. Lle adnabyddir risgiau, gallwn gynyddu gweithgarwch monitro neu ei gwneud yn ofynnol cymryd camau gweithredu wedi'u targedu i roi cymorth i wella. Trwy'r amod hwn, rydym yn ceisio gwreiddio'r Gymraeg fel cydgyfrifoldeb ar draws addysg drydyddol yn ei chyfanrwydd a chreu fframwaith lle mae darparwyr, eu staff a dysgwyr yn cael eu hannog i symud ymhellach ar hyd y continwmm iaith dros amser.

Rydym yn parhau i dynnu ar arbenigedd y Coleg Cymraeg yn y maes hwn ac mewn meysydd eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac yn rhoi ystyriaeth lawn ac yn ymateb yn llawn

i unrhyw gyngor ffurfiol y mae'n ei roi, wrth i ni barhau i roi ein Cynllun Strategol 2025-2030 ar waith, mewn partneriaeth gyda'r holl randdeiliaid.

Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol

Ochr yn ochr â'n gwaith i ddatblygu Amod y Gymraeg, rydym wedi cydweithio'n agos gyda'n partneriaid cenedlaethol allweddol i archwilio datblygiad ein Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol.

Bydd y Cynllun Cenedlaethol, a fydd yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2027, yn trosi dyletswyddau statudol Medr yn ddisgwyliadau eglur, mesuradwy ar gyfer darparwyr, a gadarnheir gan ein fframwaith rheoleiddio. Gan weithio gyda'n partneriaid, bydd ein Cynllun Cenedlaethol yn ategu dull mwy strategol o annog defnydd o'r Gymraeg a'r galw am addysg Gymraeg a chyfranogiad ynddi ar draws y sector trydyddol, gan hefyd gydnabod amrywiaeth cyd-destunau darparwyr a'r angen i gefnogi cynnydd o wahanol linellau sylfaen.

Ym mis Mehefin 2025, fe sefydlom ni Weithgor y Cynllun Cenedlaethol. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y sector addysg Gymraeg a'i rôl yw goleuo datblygiad y Cynllun Cenedlaethol trwy ddarparu mewnbyn a chynngor adeiladol. Ers ei sefydlu, mae'r Gweithgor wedi ymgynnull yn rheolaidd ac rydym wedi ceisio adborth ar ddrafftiau cynnar o Amod y Gymraeg, wedi datblygu egwyddorion lefel uchel ac wedi adnabod themâu trawsbynciol ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol, ac wedi dechrau archwilio'r themâu hyn mewn mwy o fanylder.

Wrth inni droi ein golygon tuag at y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn symud o ddatblygiad cychwynnol y Cynllun Cenedlaethol tuag at siapio a phrofi ein ffordd o feddwl gyda'r sector, cyn ymgynghori ar ddrafft llawn o'r Cynllun Cenedlaethol erbyn diwedd 2026. Wedyn byddwn yn mireinio'r Cynllun cyn ei gyhoeddi'n derfynol yn ôl y bwriad yng ngwanwyn 2027, gyda hynny'n cael ei ategu gan gyfathrebu eglur a chanllawiau ymarferol, cymesur i helpu darparwyr i baratoi ar gyfer ei roi ar waith o flwyddyn academiaidd 2027/28 ymlaen.

Hyrwyddo arfer gorau ymhlith darparwyr

Daeth un o'r cynigion Datblygu Strategol llwyddiannus a amlinellwyd ar dudalen 11 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a gyflwynodd brosiect gerbron sy'n cysylltu'r chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ledled y fwrdeistref ac awdurdodau lleol cyfagos.

Mae'r prosiect Cyfleoedd+ yn amcanu at gryfhau arweinyddiaeth strategol ar ddarpariaeth drydyddol cyfrwng Cymraeg yn y sir, gan gydweithio i wella dewis a phrofiad dysgwyr, trwy adnabod a defnyddio modelau darparu hybrid effeithiol a manteisio ar yr arbenigedd pynciol sy'n bodoli ar y cyd rhwng ysgolion.

Bydd y prosiect hefyd yn archwilio cyfleoedd i bontio rhwng darpariaeth yn yr ysgol a darpariaeth yn y coleg, trwy greu adnodd sy'n cyfeirio at gyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y coleg a'r gymuned i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn dymuno aros mewn darpariaeth chweched dosbarth. Mae'n enghraifft o'r gwelliannau cadarnhaol y gall Medr eu cefnogi trwy fuddsoddi wedi'i dargedu a chyfeiriad eglur.

Adroddiad ariannol

Sefydlu Medr

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Medr. Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024, pan gychwynnwyd Adran 23 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fe wnaeth Medr etifeddu swyddogaethau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru gyda staff yn trosglwyddo o'r sefydliadau etifeddol. Rhoddwyd gorchymyn trosglwyddo ar waith am hanner nos ar 1 Awst 2024, a wnaeth drosglwyddo staff, asedau a rhwymedigaethau o CCAUC a, lle nodwyd hynny, Llywodraeth Cymru. Mae costau a ysgwyddwyd gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC am sefydlu Medr cyn 1 Awst 2024 wedi cael eu cofnodi a rhoddwyd cyfrif amdanynt gan y sefydliadau hynny.

Yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth mae trosglwyddo swyddogaethau o CCAUC a Llywodraeth Cymru i Medr yn cael ei drin fel trosglwyddo trwy ymgorffori. Mae symiau asedau net a gofnodwyd wedi cael eu dwyn i mewn i ddatganiadau ariannol Medr o 01 Awst 2024. Mae gwerth cario asedau net wedi cael ei gofnodi fel enillion nad ydynt yn enillion gweithredu o drosglwyddo swyddogaeth, trwy wariant net. Mae unrhyw gronfeydd wrth gefn ailbriso a dibrisiant cronedig wedi cael eu trosglwyddo, gydag addasiadau cyfatebol i gronfa wrth gefn y gronfa gyffredinol.

Gan bod y swyddogaethau a gyflawnir gan Medr wedi'u hehangu o'i gymharu â'r rhai a gyflawnid gan CCAUC a Llywodraeth Cymru, nid yw datgeliadau ychwanegol am berfformiad ariannol hanesyddol o ran y swyddogaethau a gyflawnid gan CCAUC yn cyfrannu at ddealltwriaeth ddefnyddiol am berfformiad gweithredol Medr. Mae cyfrifon CCAUC am y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ar gael yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#).

Trosolwg ariannol

	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Cyllido addysg drydyddol:	(1,012,397)	(686,427)
Gwariant gweithredu Medr	(11,669)	(6,821)
Llog	(29)	(23)
Incwm o grantiau eraill	10,469	4,507
Cymorth grant – cyllid gan Lywodraeth Cymru	1,014,349	692,256
Cynnydd/(gostyngiad) yn Ecwiti Trethdalwyr	723	3,492

Ceir dadansoddiad pellach o wariant cyllido addysg drydyddol yn nodyn 3 ar y cyfrifon ar dudalen 88.

Dadansoddiad Ariannol

Roedd cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru'n gyfanswm o £1,014m a gredydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr (gweler y 'Datganiad o'r sefyllfa ariannol' ar dudalen 80 a'r 'Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr' ar dudalen 82). Roedd y gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr gronnol, ar 31 Mawrth 2026, ar ôl credydu'r cymorth grant y cyfeirir ato uchod, yn £9.2m. Bydd y cyfrifon ariannol wastad yn cofnodi canlyniad costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr.

Gwariant Gweithredu Medr 2025-26

	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Costau staff	9,530	5,456
Arall	1,530	958
Cyfanswm*	11,060	6,414

* Nid yw'n cynnwys dibrisiant nac amorteiddiad.

Dangosyddion Perfformiad Ariannol

£9.1m oedd balans arian parod Medr ar 31 Mawrth, a oedd yn 0.9% o gyfanswm yr arian cymorth grant a oedd ar gael ac a oedd yn dal i fod o fewn yr uchafswm o 2% o gyfanswm y cyllid am y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, fel a nodir yn y Ddogfen Fframwaith rhwng Medr a Llywodraeth Cymru.

Targed Medr yw talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o fewn pum niwrnod gwaith i gael anfoneb ddilys. Fe wnaethom dalu 60.8% o'r anfonebau o fewn pum niwrnod gwaith a 92.3% o fewn deng niwrnod gwaith, gydag amser talu cyfartalog ar y cyfan o 6.05 diwrnod.

Perfformiad

Yr wyf wedi fy argyhoeddi bod hwn yn adroddiad cywir ar ein perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd.

Busnes Gweithredol

Yn y cyfnod adrodd, fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Medr ar sail blwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Darperir y rhan fwyaf o'r cyllid i sefydliadau a darparwyr cymwys ar sail blwyddyn academiaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf. Felly mae'n ofynnol bod Medr yn cwrdd â'r ymrwymadau sy'n weddill ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 (rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2026). Bydd Medr yn cyllido hyn trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 gan y Senedd, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 26 Mawrth 2026 mai £1,018.5m fyddai cyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Felly, yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, mae'n briodol i Medr baratoi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2025-26 ar sail busnes gweithredol.


James Owen, Prif Weithredwr
25 Medi 2026

Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Fel Swyddog Cyfrifyddu Medr, rwy'n atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Brif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cyflawni fy nghyfrifoldeb i gynnal systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn. Mae'r systemau hyn o gymorth i gyrraedd ein nodau strategol a chyflawni ein dyletswyddau statudol, gan ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau o eiddo Medr yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#) a'n [dogfen fframwaith](#) gyda Llywodraeth Cymru. Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arian ac asedau cyhoeddus a aseiniwyd i Medr yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau mewn perthynas â'r arian a ddarperir i Medr, a ddyrennir i ddarparwyr addysg drydyddol ac eraill ar gyfer addysg, ymchwil ac arloesi, hyfforddiant ac at ddibenion cysylltiedig.

Ein strwythur llywodraethu



Ein Huwch Dîm Arwain

Mae ein Huwch Dîm Arwain yn darparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth weithredol ar gyflawni cynllun strategol Medr. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe symudodd cyfrifoldeb am oruchwyllo cyllid i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi (y Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Buddsoddi bellach). Y Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllid (y Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Dadansoddi bellach) arferai fod yn gyfrifol am ei oruchwyllo.

Enw	Teitl
Simon Pirotte (tan 31 Gorffennaf 2025)	Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr
James Owen (o 1 Awst 2025)	Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr
Rhian Edwards	Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Buddsoddi
Bethan Evans (o fis Chwefror 2026)	Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Dadansoddi
Francesca Hill (o fis Rhagfyr 2025)	Prif Swyddog Gweithredu
Harriet Barnes	Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau
Dr Ewen Brierley	Cyfarwyddwr Rheoleiddio
Sioned Cardew-Richardson (o fis Ebrill 2025)	Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi
Giles Cutler	Prif Swyddog Ariannol
Geoff Hicks	Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad
Kieron Rees	Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr
(Gwag)	Prif Swyddog Digidol

Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol, yn hybu safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, yn monitro perfformiad yn erbyn ein cynllun strategol ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol yn unol â'r gofynion ar gyfer cyrff hyd braich yng Nghymru.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys ein Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, a naw aelod cyffredin arall sy'n benodiadau cyhoeddus. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn aelod o'r Bwrdd. Fe benodwyd y Prif Weithredwr cyfredol gan y Bwrdd am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd ar 2 Mehefin 2025, gan ymgymryd â'r swydd ar 1 Awst 2025, yn dilyn proses recriwtio allanol helaeth a chymeradwyaeth Weinidogol i'r penodiad ar 5 Mehefin 2025. Mae gennym hefyd bedwar aelod cyswllt o'r Bwrdd, sy'n cynrychioli ein gweithlu ni, y gweithlu addysg drydyddol yng Nghymru a dysgwyr yng Nghymru. Ni wnaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd adael ei rôl yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'n ofynnol i aelodau ein Bwrdd ddilyn "[Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#)" a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a chydymffurfio â'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus 2019](#). Mae manylion y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael yn [Y Bwrdd a llywodraethu - Medr](#).

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026, roedd y canlynol yn aelodau o Fwrdd Medr:

Aelodau'r Bwrdd

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
Yr Athro Fonesig Julie Lydon Cadeirydd	Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 - 15 Ionawr 2028	10 o 10 cyfarfod
Yr Athro David Sweeney Dirprwy Gadeirydd	Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 - 15 Ionawr 2028	10 o 10 cyfarfod
Simon Pirotte (tan 31 Gorffennaf 2025)	Yn unol â'i gyfnod fel Prif Weithredwr	4 o 4 cyfarfod
James Owen (o 1 Awst 2025)	Yn unol â'i gyfnod fel Prif Weithredwr	6 o 6 cyfarfod
Yr Athro Aaqil Ahmed	Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2027	10 o 10 cyfarfod
Dr Gwenllian Lansdown Davies	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	6 o 10 cyfarfod
James Davies	Tymor cyntaf, 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2027	8 o 10 cyfarfod

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
Cerys Furlong	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	9 o 10 cyfarfod
Jeff Greenidge	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 - 31 Awst 2027	10 o 10 cyfarfod
Rob Humphreys	Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 - 31 Mawrth 2027	10 o 10 cyfarfod
Stephen Marston	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	10 o 10 cyfarfod
Yr Athro Chris Millward	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	9 o 10 cyfarfod
Jayne Woods	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	10 o 10 cyfarfod

* Mae'r tymor gwreiddiol a oedd yn dod i ben ar 3 Medi 2026 wedi cael ei estyn gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn.

Aelodau Cyswllt¹

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
Dan Beard (yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol anacademaidd)	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 - 31 Awst 2028	6 o 10 cyfarfod
Estelle Hart (yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol academaidd)	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 - 31 Awst 2028	6 o 10 cyfarfod
Deio Owen (yn cynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol)	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 - 31 Awst 2028	8 o 10 cyfarfod
Orla Killian-Jones (yn cynrychioli ein gweithlu ni)	Tymor cyntaf, 9 Medi 2024 - 8 Medi 2027	6 o 10 cyfarfod

Mae ein staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, ond nid oes unrhyw sylwedyddion.

¹ Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (TERA) yn nodi rôl aelodau cyswllt y Bwrdd

Cynhaliodd Medr gymysgedd o gyfarfodydd ar-lein ac yn y cawd yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd un o'n gyfarfodydd yn y cawd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, gan alluogi aelodau'r Bwrdd i gwrdd â staff a dysgwyr mewn darparwr addysg drydyddol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu ein Bwrdd ddeg gwaith ac fe drafododd ystod o faterion gan gynnwys:

- Cymeradwyo'r [fframwaith rheoleiddio](#) newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.
- Trafodaethau am y gyllideb a oleuwyd gan gyllideb Llywodraeth Cymru a [dyraniadau cyllid](#) i ddarparwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27.
- Egwyddorion buddsoddi i oleuo dyraniadau cyllid yn y dyfodol.
- Diweddariadau ar risgiau i ddarparwyr a'r sector gan gynnwys diweddariadau ar [gynaliadwyedd ariannol](#).
- [Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Medr 2024-25](#).
- Cynigion ar gyfer [rhaglen brentisiaethau](#) newydd yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn Medr.
- [Cyngor gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) yn ei rôl ddynodedig i roi cyngor i Medr ynghylch ein dyletswyddau i annog galw am addysg drydyddol Gymraeg, a chyfranogiad ynddi.
- [Mapio pynciau addysg uwch](#).
- Paratodau ar gyfer Llywodraeth Cymru newydd.
- Galwad Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ar bwnc Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Adroddiadau chwarterol ar gynnydd o ran cyflawni Cynllun Strategol Medr, cofrestr risgiau corfforaethol Medr, risgiau'r sector a monitro ariannol mewn perthynas â chostau rhaglenni a gweithredu.

Darparwyd diweddariadau gan y Prif Weithredwr a Chadeiryddion Pwyllgorau ym mhob cyfarfod yn y cawd ynghyd â chofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau lle'r oedd yn berthnasol.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael sesiynau briffio rheolaidd ar feysydd polisi i oleuo cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, i addysgu Bwrdd newydd am y cylch gwaith trydyddol eang a blaenoriaethau polisi cyfredol yng Nghymru.

Cyfarfu'r Bwrdd hefyd ar 2 Mehefin 2025 i gymeradwyo argymhelliad gan banel dethol o aelodau Bwrdd Medr ynghylch penodi'r Prif Weithredwr. Wedyn fe gyflwynwyd y penodiad hwn i Weinidogion Cymru i gael ei gymeradwyo, ac fe gafwyd y gymeradwyaeth honno ar 5 Mehefin 2025.

Cefnogir ein Bwrdd trwy gyngor gan bum pwyllgor cynghori a grŵp gorchwyl a gorffen.

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Jayne Woods (Cadeirydd)	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	6 o 6 chyfarfod
Jeff Greenidge (Dirprwy Gadeirydd)	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 - 31 Awst 2027	5 o 6 chyfarfod
Rob Humphreys	Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 - 31 Mawrth 2027	5 o 6 chyfarfod

* Mae'r tymor gwreiddiol a oedd yn dod i ben ar 3 Medi 2026 wedi cael ei estyn gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn.

Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Andrew Lewis	Tymor cyntaf, 13 Mai 2024 - 12 Mai 2027	6 o 6 chyfarfod
Martin Lewis	Tymor cyntaf, 13 Mai 2024 - 12 Mai 2027	5 o 6 chyfarfod

* Arferai ein haelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod yn aelodau annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CCAUC hefyd i gefnogi'r broses o drosglwyddo dyletswyddau o CCAUC i Medr.

Mae staff Medr yn mynychu'r Pwyllgor, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, ac mae'r gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn arsylwi ar y cyfarfodydd.

Rôl ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu cynwysfawredd a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth, ac uniondeb datganiadau ariannol a'r Cyfrifon Blynnyddol. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn goruchwyllo gwaith sicrwydd ein darparwyr allanol. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor chwech gwaith.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi ystyried y canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Risgiau i sefydliadau yng Nghymru, gyda ffocws arbennig ar risgiau i gynaliadwyedd ariannol a rheoli ariannol.
- Gwersi i Medr o'r ymchwiliad annibynnol gan yr Athro Pamela Gillies ar ran Cyngor Cyllido'r Alban i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr heriau ariannol a wynebodd Brifysgol Dundee.
- Amodau drafft ar gyfer y System Reoleiddio newydd a phwerau ymyrryd Medr.
- Adrodd ar gyfrifoldebau Medr am fonitro cydymffurfedd darparwyr addysg uwch perthnasol â'r [ddyletswydd Prevent](#).
- Trefniadau archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.
- Goruchwyliaeth ar Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon cyntaf Medr 2024-25, cyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd.
- Parhad busnes yn Medr.
- Trafod risg gorfforaethol fel eitem sefydlog gydag adolygiadau dwfn o risgiau o ran casglu data, diogelwch TG a'r rhaglen brentisiaethau newydd.
- Ym mhob un o'i gyfarfodydd, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Cadeirydd ar faterion allweddol a drafodwyd gan Fwrdd Medr yn ei gyfarfod diweddaraf. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ym mhob cyfarfod hefyd gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau ehangach mewn addysg drydyddol yng Nghymru.

Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Dr Gwenllian Lansdown Davies (Cadeirydd)	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 03 Medi 2027*	4 o 4 cyfarfod
Yr Athro Aaqil Ahmed	Tymor cyntaf, 1 Awst 2024 - 31 Gorffennaf 2027	4 o 4 cyfarfod
Cerys Furlong	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	3 o 4 cyfarfod
Yr Athro Fonesig Julie Lydon	Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 - 15 Ionawr 2028	4 o 4 cyfarfod
Simon Pirotte (tan 31 Gorffennaf 2025)	Yn unol â'i gyfnod fel Prif Weithredwr	0 o 2 gyfarfod
James Owen (o 1 Awst 2025)	Yn unol â'i gyfnod fel Prif Weithredwr	2 o 2 gyfarfod
Orla Killian-Jones	Tymor cyntaf, 9 Medi 2024 - 8 Medi 2027	2 o 4 cyfarfod **

* Mae'r tymor gwreiddiol a oedd yn dod i ben ar 3 Medi 2026 wedi cael ei estyn gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn.

** Fe wnaeth aelod etholedig arall o Gangen PCS yn Medr ddirprwyo ar ran Orla Killian-Jones mewn un cyfarfod.

Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Nadine Beaton	Tymor cyntaf, 1 Tachwedd 2025 - 31 Hydref 2028	1 o 1 cyfarfod
Bethan Reed	Tymor cyntaf, 1 Tachwedd 2025 - 31 Hydref 2028	0 o 1 cyfarfod

Rôl ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant yw goruchwyllo'r strategaeth sy'n ymwneud â phobl a datblygu sefydliadol, llesiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Medr. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi trafod y canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Strategaeth Pobl a Diwylliant Medr.
- Safonau'r Gymraeg.
- Gweithgarwch recriwtio a chynlluniau recriwtio yng nghyd-destun risgiau o ran capasiti.
- Ymgynghoriad ynghylch strwythur Medr.
- Data cydraddoldeb staff ac ymgeiswyr.
- Gofynion o ran data a gwybodaeth reoli.
- Canlyniadau arolwg pobl Medr.
- Cylch cyflog staff Medr.

Mae cofnodion Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol mewnol Medr yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor er gwybodaeth fel eitem sefydlog ar yr agenda, ynghyd â diweddariad gan y Cadeirydd ac uwch aelodau o weithrediaeth Medr.

Y Pwyllgor Ansawdd

Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Ansawdd

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Stephen Marston (Cadeirydd)	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	5 o 5 cyfarfod
Cerys Furlong	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	5 o 5 cyfarfod
Yr Athro Chris Millward	Tymor cyntaf, 4 Medi 2023 - 3 Medi 2027*	3 o 5 cyfarfod

* Mae'r tymor gwreiddiol a oedd yn dod i ben ar 3 Medi 2026 wedi cael ei estyn gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn.

Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Ansawdd

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Dr Lowri Brown	13 Hydref 2025 - 12 Hydref 2028	1 o 2 gyfarfod
Yr Athro Janice Kay	8 Mai 2024 - 7 Mai 2027	2 o 5 cyfarfod
Yr Athro Clare Milsom	8 Mai 2024 - 7 Mai 2027	4 o 5 cyfarfod
Deio Owen	1 Gorffennaf 2024 - 30 Mehefin 2026, yn unol â'i gyfnod fel Llywydd UCM Cymru	4 o 5 cyfarfod*
Bill Peaper	2 Rhagfyr 2024 - 1 Rhagfyr 2027	4 o 5 cyfarfod
Karen Phillips	13 Mai 2024 - 12 Mai 2027	4 o 5 cyfarfod
Yr Athro Ian Robinson**	8 Mai 2024 - 7 Mai 2027	5 o 5 cyfarfod
Andrew Thomas	8 Mai 2024 - 30 Medi 2025	1 o 3 chyfarfod

* Fe wnaeth Ellie Mayo-Ward, aelod o weithrediaeth UCM, ddirprwyo ar ran Deio Owen am un cyfarfod i sicrhau bod cynrychiolydd dysgwyr yn goleuo ystyriaethau gan y Pwyllgor.

** Arferai'r Athro Ian Robinson fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Ansawdd CCAUC i gefnogi'r broses o drosglwyddo dyletswyddau o CCAUC i Medr.

Mynychir y Pwyllgor Ansawdd gan staff Medr hefyd, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, a sylwedyddion o sefydliadau partner, gan gynnwys Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith.

Rôl ein Pwyllgor Ansawdd yw cynghori'r Bwrdd ynghylch ansawdd yr holl addysg drydyddol a gyllidir neu a sicrhau fel arall gan Medr ac ynghylch dyletswyddau strategol Medr fel y maent yn ymwneud ag ansawdd, yn enwedig cyfle cyfartal, gan gynnwys cyfranogiad, cadw, a chyrhaeddiad myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; a hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Ansawdd wedi cynghori ynghylch y canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Perthynas Medr ag Estyn gan gynnwys adroddiad blynyddol Estyn.
- Perthynas Medr â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) gan gynnwys llythyr cylch gwaith Medr i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer 2025/26.
- Datblygiad y system reoleiddio newydd yng Nghymru.

- Fframwaith ansawdd ar gyfer addysg drydyddol a'r amod rheoleiddio cysylltiedig sy'n ymwneud ag ansawdd a gwella'n barhaus, ynghyd â'r dull o roi'r fframwaith ar waith.
- Mae materion ansawdd mewn darparwyr yn eitem sefydlog ar yr agenda gyda ffocws ar adolygiadau ansawdd neu arolygiadau allanol, lle y bo'n berthnasol.
- Cynlluniau diogelu dysgwyr a sut y byddent yn cael eu defnyddio yn y system reoleiddio newydd.
- Ymgysylltu â dysgwyr ar draws addysg drydyddol gan gynnwys datblygiad y cod ymgysylltu â dysgwyr.
- Mae diweddariad gan UCM Cymru yn eitem sefydlog ar yr agenda, i sicrhau bod llais y dysgwr yn goleuo gwaith y Pwyllgor.
- Datblygiadau ar gyfer arolwg llais y dysgwr ar draws addysg drydyddol yng Nghymru a gwreiddio llais y dysgwr yng ngwaith Medr.
- Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr mewn addysg uwch ac ymgysylltu perthnasol gan Medr mewn ymateb.
- Adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella'n barhaus mewn addysg drydyddol yng Nghymru.
- Datblygu mesurau perfformiad ar gyfer addysg drydyddol a dangosfyrddau data cysylltiedig i oleuo gwaith y Pwyllgor.
- Dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth broffesiynol mewn addysg drydyddol.
- Risgiau Corfforaethol Medr a thasgau yn ei gynllun gweithredol sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Ansawdd.

Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Aelodau Bwrdd Medr sydd ar y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Bwrdd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Yr Athro David Sweeney (Cadeirydd)	Tymor cyntaf, 16 Ionawr 2023 – 15 Ionawr 2028	4 o 4 cyfarfod
James Davies	Tymor cyntaf. 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2027	4 o 4 cyfarfod
Jeff Greenidge	Tymor cyntaf, 1 Medi 2024 – 31 Awst 2027	4 o 4 cyfarfod

Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Enw	Tymor yn y Rôl ar y Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
Yr Athro Rick Delbridge	Ail dymor. 23 Mawrth 2026 – 22 Mawrth 2029	3 o 4 cyfarfod
Yr Athro Paul Boyle*	Yn rhinwedd ei swydd – Cadeirydd Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Prifysgolion Cymru	3 o 4 cyfarfod
Yr Athro Emrys Evans	Tymor cyntaf. 9 Ionawr 2023 – 8 Ionawr 2026	2 o 3 chyfarfod
Yr Athro Helen Fulton	Tymor cyntaf. 11 Mehefin 2025 – 10 Mehefin 2028	3 o 4 cyfarfod
Dr David Lewis	Tymor cyntaf. 26 Gorffennaf 2023 – 25 Gorffennaf 2026	2 o 4 cyfarfod
Amanda Roberts-Jones	Tymor cyntaf. 11 Mehefin 2025 – 10 Mehefin 2028	3 o 4 cyfarfod
Yr Athro Paul Spencer	Ail dymor. 23 Mawrth 2026 – 22 Mawrth 2029	4 o 4 cyfarfod
Yana Williams	Enwebiad gan Colegau Cymru	0 o 4 cyfarfod
Vacant – Member from other bodies involved in undertaking research and innovation in Wales	Amh.	Amh.

* Mae Roger Whittaker yn Ddirprwy i'r Aelod o'r Pwyllgor yn Rhinwedd Ei Swydd, yr Athro Paul Boyle, ac fe ddirprwyodd ar ei ran mewn un cyfarfod.

Arferai rhai aelodau o'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi fod yn aelodau o Bwyllgor Ymchwil Cymru CCAUC. Mae tymhorau cyntaf yr aelodau hyn yn y rôl yn CCAUC wedi cael eu trin fel tymhorau cyntaf ar gyfer Medr.

Mynychir y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi gan staff Medr hefyd, fel y bo'n berthnasol i'r agenda, a sylwedyddion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â sefydliadau partner a chynrychiolaidd, gan gynnwys Ymchwil ac Arloesi yn y DU a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

Rôl ein Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yw cynghori ein Bwrdd ynghylch materion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi yn narparwyr addysg drydyddol Cymru, yn unol â dyletswyddau deddfwriaethol Medr a'i Gynllun Strategol, gan hefyd gydnabod y cyd-destun y mae ein prifysgolion yn gweithredu ynddo yn y DU ac yn fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys cyngor sy'n gysylltiedig â datblygu polisi; gwella ansawdd ymchwil ac arloesi yng Nghymru'n barhaus, gweithrediad, effaith a dylanwad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil; a hyrwyddo a chynnal diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil iach a ffyniannus.

Yn y cyd-destun hwn, fe drafodwyd y canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gan gynnwys
 - Trefniadau ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf yn 2029.
 - Proses arfaethedig ar gyfer cymeradwyo Codau Ymarfer sefydliadol
 - Recriwtio i baneli cynghori ac asesu.
 - Cyfraniad at ganllawiau polisi Gwybodaeth a Dealltwriaeth
 - Peilot a dangosyddion Pobl, Diwylliant a'r Amgylchedd.
- Goblygiadau Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu.
- Goblygiadau adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU a'i Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
- Blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu mewn cyd-destun trydyddol.
- Dangosyddion ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu yn unol â gofynion deddfwriaethol yn y dyfodol.
- Canlyniadau monitro cyllid, gan gynnwys Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, Cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru a'r Gronfa Gyfalaf Ymchwil Addysg Uwch
- Ymgysylltiad prifysgolion Cymru â Horizon Europe a chyfleoedd yn y dyfodol gyda'r Rhaglen Fframwaith 10 sydd ar ddod.
- Effaith y Fframwaith Rheoleiddio newydd a thelerau grant ar ymchwil ac arloesi.

Pwyllgor Penodi Aelodau o Blith y Staff

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Medr fod â phwyllgor penodi aelodau o blith y staff sy'n cynnwys y Cadeirydd ac aelodau cyffredin y Bwrdd. Unig rôl y Pwyllgor hwn yw penodi Aelod Cyswllt o Fwrdd Medr sy'n cynrychioli staff Medr. Rhaid bod yr Aelod Cyswllt o Fwrdd Medr yn cael ei gyflogi gan Medr a bod yn aelod o PCS, ein hundeb llafur cydnabyddedig.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael unrhyw reswm i gwrdd yn y cyfnod adrodd.

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddio

Mae Medr hefyd wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen bach i'w gynorthwyo i ddatblygu'r system reoleiddio newydd yng Nghymru. Nid pwyllgor ffurfiol mo hwn ond mae wedi bod yn hollbwysig i oruchwyllo trefniadau llywodraethu'r gwaith arwyddocaol hwn, gan alluogi'r Bwrdd i gymeradwyo'r fframwaith rheoleiddio yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

Mae'r grŵp yn cael ei Gadeirio gan yr Athro Chris Millward ac mae aelod arall o'r Bwrdd, sef Jayne Woods (Cadeirydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg), wedi ymuno ag ef ar y grŵp a rhoddir cymorth ychwanegol gan Stephen Marston (Cadeirydd ein Pwyllgor Ansawdd). Mae'r aelodau hyn o'r Bwrdd yn sicrhau cysondeb â'r oruchwyliaeth reoleiddiol gyfredol a gyflawnir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Ansawdd. Rhoddwyd cymorth allanol annibynnol i'r grŵp gan Amanda Hughes, yr Athro Helen O'Sullivan a Jack Smith.

Cyfarfu'r grŵp gorchwyl a gorffen am y tro olaf ar 27 Chwefror 2026, lle bu'n craffu ar adroddiad canlyniadau ymgynghori drafft, y dogfennau rheoleiddiol diwygiedig a'r asesiad effaith integredig o'r fframwaith rheoleiddio. Fe wnaeth awgrymiadau gan y grŵp oleuo ystyriaethau i'r fframwaith rheoleiddio terfynol gan un o is-grwpiau'r Bwrdd a ddarparodd argymhellion i'r Bwrdd i'w hystyried ar 19 Mawrth 2026. Cafodd yr argymhellion hyn eu derbyn wedyn, ac fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r fframwaith rheoleiddio ar 19 Mawrth 2026.

Pwerau deddfwriaethol

Cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) gydsyniad brenhinol ar 8 Medi 2022. Mae Deddf 2022 yn rhoi pwerau i Medr gyllido a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Dim ond peth o Ddeddf 2022 oedd mewn grym yn ystod y cyfnod adrodd, gyda Medr yn cyllido ac yn rheoleiddio addysg drydyddol trwy bwerau a ddefnyddid yn flaenorol gan CCAUC a Llywodraeth Cymru. Nid yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i roi Deddf 2022 ar waith wedi'u bwriadu i gymryd effaith lawn tan 2027/28 felly bydd trefniadau pontio'n parhau wrth i Ddeddf 2022 gael ei chychwyn bob yn dipyn. Cafodd pwerau a etifeddwyd gan CCAUC i gyllido a rheoleiddio addysg uwch eu galluogi trwy bwerau dros dro a oedd yn ei gwneud yn bosibl gwneud addasiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Yn ystod y cyfnod adrodd mae Medr hefyd wedi cael ei alluogi i gyllido rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol trwy gytundeb asiantaeth dan adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cyllido darparwyr addysg drydyddol

Un o swyddogaethau allweddol Medr yw dyrannu cyllid i ddarparwyr addysg drydyddol perthnasol yng Nghymru. Caiff ein dyraniadau cyllid eu goleuo gan ddata hanesyddol a data o ragolygon a chyda methodolegau y cytunwyd arnynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe gyhoeddodd Medr ei dybiaethau cyllido ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth ein tybiaethau oleuo gwaith gan y Senedd i

graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a chynlluniau Medr ar gyfer dyraniadau. Fe wnaeth ein Bwrdd drafod y broses ar gyfer dyrannu'r gyllideb derfynol yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2026 yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Fe anfonwyd [llythyr cyllido](#) oddi wrth Weinidogion Cymru at ein Cadeirydd ar 26 Mawrth 2026.

Ers y cyfnod adrodd, rydym wedi cyhoeddi dyraniadau darparwyr ar gyfer 2026/27, a byddwn yn anfon llythyrau cyllido at dderbynyddion ein cyllid. Mae hon yr un broses ar gyfer dyrannu cyllid i ddarparwyr ag yn y cyfnod adrodd ar gyfer 2025/26. Mae'r llythyrau cyllido hyn yn nodi ein gofynion ar gyfer defnyddio cyllid, yn unol â'n hamodau cyllid. Rydym yn monitro data ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ein hysbysu ynghylch archwiliadau mewnol ag asesiadau sicrwydd cyfyngedig fel rhan o'n gwiriadau i fod wedi ein sicrhau bod cyllid wedi cael ei defnyddio yn unol â'r dibenion y cafodd ei ddyrannu ar eu cyfer.

Mae grŵp cyllideb mewnol yn craffu ar reoli ein cyllideb a dyraniadau.

Darparu data a mewnweliadau dadansoddi

Mae Medr wedi'i restru'n gynhyrchydd [ystadegau swyddogol](#) trwy [Orchymyn Ystadegau Swyddogol \(Cymru\) \(Diwygio\) 2024](#). Mae'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) yn nodi'r safonau y dylai cynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymrwymo iddynt. Mae ein hystadegau swyddogol yn cydymffurfio â thri chonglfaen y Cod – dibynadwyedd, ansawdd a gwerth – ac rydym wedi cyhoeddi [datganiad cydymffurfio](#) â'r Cod Ymarfer. Ym mis Mawrth 2026 fe gyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) ei [hasesiad](#) o'r ystadegau ar addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned a gynhyrchir gan Medr. Roedd ei hasesiad yn nodi bod Medr wedi sefydlu sylfaen gref fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol newydd ac yn adnabod nifer o feysydd lle ceir arfer da. Fe adnabuwyd saith gofyniad i gryfhau'r ystadegau yr ydym yn eu cynhyrchu a phan fydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cadarnhau bod y gofynion hyn wedi cael eu hateb bydd yr ystadegau perthnasol a gynhyrchir gennym yn gallu cael eu dynodi'n ystadegau swyddogol.

Fe barhaodd Llywodraeth Cymru i fod y rheolydd data a'r pwynt casglu ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Casgliad Data Ôl-16. Yn ystod y cyfnod adrodd bu Medr yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i alluogi Medr i ddod yn rheolyddion data ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r casgliad data ôl-16 ar 1 Ebrill 2026. Cafodd risgiau sy'n gysylltiedig â hyn eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC). Caiff data addysg uwch ei gasglu ar ran Medr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae HESA a Medr yn rheolyddion data ar y cyd ar gyfer y data.

Mae Medr yn cydweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, darparwyr HESA a chyllidwyr a rheoleiddwyr eraill y DU i sicrhau bod y data a gesglir yn cael ei ddilysu, yn gywir ac yn amserol.

Mae Medr yn cynnal ystod o swyddogaethau gan ddefnyddio'r data yma gan gynnwys cyfrifo a monitro dyraniadau cyllid, i oleuo a gwerthuso polisi, ac i gynhyrchu ystadegau swyddogol.

Mae ein Bwrdd wedi adolygu data ar ystod yr addysg drydyddol yng Nghymru a'r wybodaeth ariannol gysylltiedig. Yn ystod y cyfnod adrodd, fe weithiom ni gyda'n Pwyllgor Ansawdd i ddatblygu mesurau perfformiad darparwyr ar gyfer ymgynghori yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Bydd hyn o gymorth i wella addysg drydyddol yng Nghymru yn barhaus ac yn helpu Medr i asesu perfformiad darparwyr.

Rheoli Risg

Mae Medr wedi bod yn rheoli risg yn unol â pholisi a gymeradwywyd gan ein Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar Lyfr Oren Trysorlys EF. Fel rhan o gymeradwyo'r polisi rheoli risg, fe wnaeth ein Bwrdd gymeradwyo ein parodrwydd i dderbyn risg yn seiliedig ar y gwahanol gategorïau risg. Yn ystod y cyfnod adrodd nid ydym wedi adolygu ein polisi na'n parodrwydd i dderbyn risg.

Mae risgiau corfforaethol yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Bwrdd ac maent i raddau helaeth yn adlewyrchu ein safle fel sefydliad newydd a'r broses o bontio i drefniadau newydd ar gyfer cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod adrodd fe wnaeth ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fwrw golwg ar rai meysydd lle ceir risgiau mewn mwy o fanylder, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, parhad busnes a risgiau i Medr sy'n gysylltiedig â'r rhaglen brentisiaethau newydd yng Nghymru.

Mae ein cofrestr risgiau hefyd yn adlewyrchu heriau datblygu diwylliant mewn sefydliad newydd a'n risgiau o ran capasiti. O ganlyniad, mae ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi trafod risg ac mae Cadeiryddion ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Pwyllgor Pobl a Diwylliant wedi trafod ein risgiau sy'n gysylltiedig â phobl i fod wedi'u sicrhau bod rheolaethau priodol yn cael eu rhoi yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

Rydym wedi cytuno mai osgoi risg ac ansicrwydd yw'r amcan allweddol mewn perthynas â seiberddiogelwch. Fel sefydliad cwmwl rydym yn dilyn canllawiau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac arfer gorau arall. Fe enillom ni ail-ardystiad Cyber Essentials ym mis Ionawr 2026 ac ail-ardystiad Cyber Essentials Plus ym mis Mawrth 2026.

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Bwrdd hefyd wedi bod wrthi'n rheolaidd yn trafod risgiau yn y sector addysg drydyddol, yn bennaf rhai sy'n ymwneud ag iechyd ariannol. Er bod y rhain yn adlewyrchu risgiau i ddarparwyr, rydym wedi adlewyrchu sut y gallai heriau i ddarparwyr adlewyrchu risgiau i ni. Mae rheolaethau ar ein prosesau wedi parhau i gael eu cryfhau yn dilyn y trafodaethau hyn. Rydym hefyd wedi trafod rhai risgiau cysylltiedig penodol i Medr gyda'n Pwyllgor Ansawdd.

Fel rhan o'n cynllun archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod adrodd fe gynhaliodd ein harchwilwyr mewnol archwiliad o'n polisi rheoli risg ac fe ddaethant i'r casgliad y gellid cymryd sicrwydd rhesymol o roi'r polisi ar waith, gan adnabod camau gweithredu i wella ein polisi.

Rhyddid Gwybodaeth

Yn y cyfnod adrodd rydym wedi cael 18 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fe ymatebodd Medr i bob un o'r ceisiadau o fewn y terfyn amser o 20 niwrnod gwaith a oedd yn ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mewn deg achos, roedd Medr yn dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ac fe'i datgelodd yn llawn. Cafodd gwybodaeth a ddelir ar gyfer tri o'r 18 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ei rhyddhau'n rhannol, ac fe wrthodwyd un cais dilynol. Yn y pedwar achos arall, naill ai nid oedd yr wybodaeth yn cael ei dal gan Medr, neu nid oedd y cais yn uniongyrchol berthnasol i Medr; fodd bynnag, ym mhob achos, darparwyd cyngor ac eglurhad priodol ynghylch cyfrifoldebau Medr.

Chwythu'r Chwiban

Mae gan Medr bolisi a gweithdrefnau ategol yn eu lle ar gyfer chwythu'r chwiban. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau yn eu lle i ddarparu arweiniad i aelod o staff Medr neu unrhyw gontractwr, cyflenwr, aelod o staff dros dro neu secondai, i hysbysu am unrhyw bryderon, naill ai yn y gweithle, neu yn allanol, sy'n ymwneud â pherygl, risg, camarfer neu gamwedd sy'n effeithio ar eraill. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd. Maent hefyd i gyd yn rhan o'n Cod Ymddygiad y mae'n ofynnol i'r holl staff ymlynu wrtho. Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw faterion chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod y mae'r Adroddiad hwn yn ymwneud ag ef.

Safonau'r Gymraeg

Daeth Medr yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar 4 Mawrth 2026, a byddwn yn adrodd ar ein cydymffurfiaeth yn erbyn safonau yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, yn unol â chanllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraethu

Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Ansawdd a'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi adolygu eu heffeithiolrwydd gan ddefnyddio gwahanol ddulliau ac fe gynhaliodd Cadeirydd y Bwrdd arfarniadau un-i-un gyda phob aelod o'r Bwrdd a phob Aelod Cyswllt o'r Bwrdd. Bydd yr adborth o'r ymarferion hyn yn bwydo i mewn i adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn ystod 2026-27.

Cafodd adolygiad cychwynnol o gydymffurfio â'r [Ddogfen Fframwaith](#), a danategir gan God Llywodraethu Corfforaethol y DU, ei gynnal a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mai 2026 fel rhan o graffu ar yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon cyn eu cyflwyno i Archwilio Cymru. Ni wnaethom adnabod unrhyw fylchau yn ein prosesau a'n gweithdrefnau presennol i ddynodi na fyddwn yn gallu dangos ein bod yn ymdrin â'r holl ofynion allweddol yn y Ddogfen Fframwaith.

Nid oedd unrhyw wyriadau oddi wrth y Ddogfen Fframwaith.

Rheolaethau Mewnol

Rydym yn gweithredu system o reolaethau mewnol sydd wedi'u bwriadu i: adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisiau a'n hamcanion strategol; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n dod yn ffaith a'r effaith pe baent yn dod yn ffaith; a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau a threfniadau sicrwydd mewn perthynas â sefydliadau sy'n cael ein cyllid ac yr ydym yn eu rheoleiddio.

Mae trefniadau i oruchwylio cyllid a ddyrennir i darparwyr addysg drydyddol yn seiliedig ar brosesau a etifeddiwyd gan CCAUC a Llywodraeth Cymru ond maent wedi cael eu gwella dros y cyfnod adrodd gyda diwygiadau i delerau ac amodau cyllid mewn perthynas â darpariaeth addysg bellach ar gyfer 2025/26. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys ffurflenni data a chydymffurfio gan ddarparwyr, ac mae'r rhain yng nghyd-destun telerau ac amodau cyllid, yn bennaf ar gyfer goruchwylio darpariaeth nad yw'n addysg uwch a threfniadau rheoleiddio sydd yn eu lle ar gyfer darpariaeth addysg uwch. Bydd y prosesau hyn yn esblygu ymhellach yn sgîl cyflwyno'r fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol sy'n dod i rym ar 1 Awst 2026.

Fe wnaeth ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu ar gynnydd yn erbyn ein polisi Gwrth-dwyll a'r gofrestr risgiau gysylltiedig yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd trefniadau llywodraethu a rheolaethau ar daliadau eu profi'n gynnar yn 2025-26 gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod eu rhaglen waith hwy, gan arwain at asesiad sicrwydd sylweddol.

Archwilio Mewnol

Cwmpesir Gwasanaeth Archwilio Mewnol Medr gan gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Mae arweinwyr archwilio mewnol yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae ganddynt fynediad at yr holl bapurau. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn Medr. Darperir y sicrwydd hwn gan yr Archwilydd Mewnol Arweiniol i'r Swyddog Cyfrifyddu a, thrwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i'r Bwrdd.

Roedd yr archwiliadau canlynol yn yr arfaeth ar gyfer 2025-26 ac fe'u cwblhawyd i gyd erbyn mis Mai 2026, gan gydnabod yr oedi cyn cychwyn y gweithgarwch arfaethedig a'r heriau o ran adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd:

- Parhad busnes.
- Trefniadau cyllido gyda darparwyr.
- Iechyd a diogelwch.
- Rheoli gwybodaeth.
- System reoleiddio newydd.
- Rheoli risg.

Adroddiad Blynyddol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 oedd y gall y rheolwyr fod â sicrwydd rhesymol bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi'u dylunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Nodwyd hyn yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 26 Mai 2026.

Archwilio Allanol

Archwilio Cymru yw ein harchwilydd allanol ac mae'n mynychu pob un o gyfarfodydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae ganddo fynediad at y papurau. Mae Archwilio Cymru'n cyhoeddi adroddiad archwilio ac yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Adrodd wrth Lywodraeth Cymru

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru; mae ein prif berthynas trwy ein Tîm Partneriaeth ond mae ein cyswllt â Llywodraeth Cymru'n rhychwantu cyfarwyddiaethau lluosog. Fe'n tywysir yn ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru gan [Ddogfen Fframwaith](#) a dogfen ffyrdd o weithio ategol. Mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn cael cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar gyflawni ein cynllun strategol, risgiau i Medr a risgiau i'r sector addysg drydyddol a darparwyr yn y sector hwnnw.

Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu Medr, yr wyf wedi adolygu'r dystiolaeth a gallaf gadarnhau bod y datganiadau a wnaed yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Ni fu unrhyw faterion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol na llywodraethu. Gallaf hefyd gadarnhau bod systemau rheolaeth fewnol cadarn yn eu lle i helpu i gyflawni ymrwymïadau a chyrraedd nodau strategol y sefydliad.

James Owen

Prif Weithredwr

25 Medi 2026

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 15 atodlen 1 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Medr i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a hynny ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail groniadol a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Medr ac o'i incwm a'i wariant, ei Ddatganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'i lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- ymlynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu Medr. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Medr, eu nodi yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i'm gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Medr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

James Owen

Prif Weithredwr

25 Medi 2026

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a staff

Dim ond yr adrannau hynny yn yr adroddiad â * ar eu pwys a gaiff eu harchwilio.

Polisi cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cafodd cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd ei phennu gan Lywodraeth Cymru ac fe lywodraethwyd hynny gan Gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol i Gadeiryddion ac Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004.

Yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Gweinidogion Cymru wnaeth benodi Prif Weithredwr cyntaf Medr a phennu ei gydnabyddiaeth ariannol. Nid yw'r gydnabyddiaeth ariannol a bennwyd yn un lle ceir dyfarniadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad na chyfraniadau pensiwn. Penodwyd y Prif Weithredwr cyfredol gan y Bwrdd, a wnaeth hefyd bennu ei gydnabyddiaeth ariannol.

Pennwyd cydnabyddiaeth ariannol yn unol â'n cynllun cyflog a graddio cymeradwy. Roedd hyn yn berthnasol i'r holl benodiadau staff. Cafodd ein lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar y cyfan a'n cylch cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i'r holl staff gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwyr, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Daeth Medr yn weithredol ar 1 Awst 2024. Fe wnaeth cyflogeion o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r rhai o fewn y cwmpas o Lywodraeth Cymru drosglwyddo i Medr ar 1 Awst 2024 ac fe gawsant lythyrau'n cadarnhau'r newid hwn dan Ddatganiad o Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddiadau Staff yn y Sector Cyhoeddus (COSoP). Er mai'r gred oedd nad oedd y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol yn gyfreithiol i'r trosglwyddiad hwn, fe gytunwyd gan yr holl bartïon, yn unol â COSoP, y dylid dilyn egwyddorion TUPE i sicrhau bod yr aelodau hynny o staff a oedd yn trosglwyddo'n cael yr un mesurau diogelu cyflogaeth â'r Rheoliadau TUPE ac nad oeddent yn cael eu trin yn llai ffafriol na phe bai'r Rheoliadau TUPE wedi bod yn berthnasol.

Cymeradwyir ein Cylch Cyflog gan Lywodraeth Cymru, a chyn ei gyflwyno mae'n rhaid iddo gael ei gytuno gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'n Bwrdd. Ar gyfer 2025-26 fe wnaeth ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'n Bwrdd gymeradwyo ein cais am gylch cyflog i'w gyflwyno ym mis Hydref 2025. Cafodd y cais a gymeradwywyd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru'n ddiweddarach y mis hwnnw a'i gymeradwyo gan y Gweinidogion.

Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflogau) a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr.

Un ffigwr sy'n nodi cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Bwrdd ac uwch gyflogeion*

Aelodau'r Bwrdd (gan gynnwys y Prif Weithredwr)

Enw	Swydd	Cyflog 2025-26 £'000	Buddion pensiwn 2025-26 £'000	Cyfanswm 2025-26 £'000	Cyflog 2024-25 £'000 (Wedi'i ail-ddatgan gweler c isod)	Buddion pensiwn 2024-25 £'000	Cyfanswm 2025-26 £'000 (Wedi'i ail-ddatgan gweler c isod)
Yr Athro Fonesig Julie Lydon	Cadeirydd	20-25	0	20-25	10-15	0	10-15
Yr Athro David Sweeney	Dirprwy Gadeirydd	0-5	0	0-5	0-5	0	0-5
Simon Pirotte (a)	Prif Weithredwr (tan 31 Gorffennaf 2025)	65-70	0	65-70	130-135	0	130-135
James Owen (b)	Prif Weithredwr (o 1 Awst 2025)	130-135	138	270-275	75-80	123	200-205
Yr Athro Aaqil Ahmed	Aelod o'r Bwrdd	5-10	0	5-10	0-5	0	0-5
Cerys Furlong	Aelod o'r Bwrdd	10-15	0	10-15	5-10	0	5-10
Jeff Greenidge	Aelod o'r Bwrdd	10-15	0	10-15	5-10	0	5-10
Rob Humphreys	Aelod o'r Bwrdd	10-15	0	10-15	5-10	0	5-10
Dr Gwenllïan Lansdown-Davies	Aelod o'r Bwrdd	5-10	0	5-10	5-10	0	5-10
Stephen Marston	Aelod o'r Bwrdd	5-10	0	5-10	5-10	0	5-10
Yr Athro Chris Millward	Aelod o'r Bwrdd	5-10	0	5-10	5-10	0	5-10
Jayne Woods	Aelod o'r Bwrdd	10-15	0	10-15	5-10	0	5-10
James Davies	Aelod o'r Bwrdd	0-5	0	0-5	0-5	0	0-5

- (a) £195,000-£200,000 y flwyddyn yw cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy Simon Pirotte.
- (b) £140,000-£145,000 y flwyddyn yw cyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy James Owen. Mae ffigyrau yn y tabl uchod yn cynnwys ffigyrau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Gorffennaf 2025 hefyd pan oedd James Owen yn Brif Swyddog Gweithredu. Cyflog gwirioneddol fel Prif Swyddog Gweithredu oedd £40,000-£45,000 a £90,000-£95,000 -oedd ei gyflog gwirioneddol fel Prif Weithredwr.
- (c) Mae'r cyfansymiau cymeradwyaeth ariannol a roddir yn seiliedig ar sail groniadol gan ddefnyddio dalenni amser a gyflwynwyd yn hytrach na thaliadau TWE a wnaed. Yn 2024-25, defnyddiwyd taliadau TWE, felly rydym wedi ailddatgan ffigyrau 2024-25, gan arwain at newidiadau mewn bandiau ar gyfer y Fonesig Julie Lydon, Cerys Furlong, a Jeff Greenidge.

Uwch gyflogeion (heb gynnwys y Prif Weithredwr)

Enw	Swydd	Cyflog 2025-26 £'000	2025-26 Buddion pensiwn £'000	Cyfan- swm 2025-26 £'000	Cyflog CagALI 2025-26 £'000	Cyflog 2024-25 £'000	2025-26 Buddion pensiwn £'000 (Wedi'i ail- ddatgan gweler d isod)	Cyfan- swm 2024-25 £'000 (Wedi'i ail- ddatgan gweler d isod)	Cyflog CagALI 2024-25 £'000
Francesca Hill	Prif Swyddog Gweithredu (o 01 Rhagfyr 2025)	30-35	7	40-45	100-105	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Dadansoddi (o 24 Chwefror 2026)	5-10	5	15-20	100-105	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Bethan Owen (b)	Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido (tan 07 Chwe 2025)	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	65-70	49	115-120	110-115
Rhian Edwards	Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Buddsoddi	100-105	39	140-145	100-105	65-70	26	90-95	100-105
Giles Cutler (d)	Prif Swyddog Ariannol (o 1 Rhagfyr 2024)	85-90	68	155-160	85-90	25-30	61	85-90	80-85
Harriet Barnes	Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau	85-90	33	125-130	85-90	55-60	22	75-80	80-85
Kieron Rees (c)	Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr (o 16 Rhag 2024)	85-90	10	95-100	85-90	20-25	-	-	80-85
Geoff Hicks	Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad	80-85	26	110-115	80-85	50-55	20	70-75	75-80
Dr Ewen Brierley (d)	Cyfarwyddwr Rheoleiddio	85-90	16	110-115	85-90	55-60	17	70-75	80-85
Sioned Cardew-Richardson	Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi (o 7 Ebrill 2025)	60-65	16	80-85	75-80	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.

Diffinnir uwch gyflogeion fel y rhai sy'n rhan o'r Uwch Dîm Arwain.



- (a) Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn 2025-26. Mae'r ffigyrau a roddir yn rhai o 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026, oni nodir yn wahanol. Caiff ffigyrau cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer uwch aelodau o staff eu datgan yn y tabl uchod.
- (b) Fe ymddeolodd Bethan Owen o Medr ar 7 Chwefror 2025, mae ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn £110,000-£115,000, sy'n cynnwys cyflog o £105,000-£110,000 a lwfans pensiynadwy o £0-£5,000.
- (c) Mae Kieron Rees wedi dewis cyfrif pensiwn partneriaeth (trefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol) sy'n rhan o Legal & General Mastertrust. Fe wnaed cyfraniadau a oedd yn gyfanswm o £9,984 tan 31 Mawrth 2026.
- (d) Mae buddion pensiwn ar gyfer Giles Cutler a Dr Ewen Brierley wedi cael eu hailddatgan ar gyfer 2024-25. Mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol (Giles Cutler – £11k ac Ewen Brierley - £35k) wedi cael eu cywiro gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yng nghyfrifiad y flwyddyn ariannol hon 2025-26 am bod prisiau anghywir wedi cael eu darparu y llynedd. Fe gyflawnwyd ailbrisiadau oherwydd bod trefniadau gweinyddu'r gronfa wedi cael eu trosglwyddo i Capita. Mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol (Giles Cutler – £35-40k ac Ewen Brierley – £90-95K) ar gyfer yr un ffigwr sy'n nodi cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol wedi cael eu diweddarau o ganlyniad.

Pensiynau uwch gyflogeion

Enw	Swydd	Pensiwn cronodig ar oedran pensiwn ar 31/03/26 £'000	Cynnydd real mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31/03/2026 £'000	Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31/03/2026 £'000 (Wedi'i aild-datgan – gweler d isod)	Cynnydd real mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod £'000
James Owen	Prif Weithredwr o 1 Awst 2025	55-60	5-7.5	971	811	109
Francesca Hill	Prif Swyddog Gweithredu (o 01 Rhagfyr 2025	15-20	0-2.5	220	212(a)	2
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Dadansoddi (o 24 Chwefror 2026)	0-5	0-2.5	4	0	3
Bethan Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio a Chyllido (tan 7 Chwe 2025)	Amh.	Amh.	Amh.	1301	Amh.
Rhian Edwards	Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Buddsoddi	10-15	0-2.5	140	107	22
Giles Cutler	Prif Swyddog Ariannol (o 1 Rhagfyr 2024)	30-35	2.5-5	564	483(b)	51
Harriet Barnes	Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesi a Sgiliau	5-10	0-2.5	116	88	18
Kieron Rees	Cyfarwyddwr Profiad Dysgwyr (o 16 Rhag 2024)	Gweler (c) uchod	Gweler (c) uchod	Gweler (c) uchod	Gweler (c) uchod	Gweler (c) uchod
Geoff Hicks	Cyfarwyddwr Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad	30-35	0-2.5	545	499	15
Dr Ewen Brierley	Cyfarwyddwr Rheoleiddio	30-35	0-2.5	673	628(b)	7
Sioned Cardew-Richardson	Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi (o 7 Ebrill 2025)	20-25	0-2.5	398	369	6

- (a) Mae'r tabl yn cynnwys Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar gyfer Francesca Hill ar 31/03/2025 er na ddechreuodd yn ei swydd tan 01/12/2025. Fe barhaodd Francesca Hill yn ei Phensiwn Gwasanaeth Sifil presennol pan ymunodd â Medr felly roedd ganddi Werth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31/03/2025.
- (b) Mae'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar gyfer Giles Cutler a Dr Ewen Brierley wedi cael eu hailddatgan ar 31/03/2025. Mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol (Giles Cutler – £419k ac Ewen Brierley – £796K) wedi cael eu cywiro gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yng nghyfrifiad y flwyddyn ariannol hon 2025-26 am bod prisiadau anghywir wedi cael eu darparu y llynedd. Fe gyflawnwyd ailbrisiadau oherwydd bod trefniadau gweinyddu'r gronfa wedi cael eu trosglwyddo i Capita.

Datgeliadau cyflog a phensiwn

Penodwyd y Prif Weithredwr blaenorol (Simon Pirotte, Prif Weithredwr tan 31 Gorffennaf 2025) gan Weinidogion Cymru ar benodiad am gyfnod penodol. Ar 5 Mehefin 2025 fe gyhoeddodd Medr ei fod wedi penodi James Owen, Prif Swyddog Gweithredu Medr gynt, fel ei Brif Weithredwr newydd o 1 Awst 2025. Fe benodwyd y Prif Weithredwr am gyfnod cychwynnol o 5 mlynedd. Mae gan yr holl Gyfarwyddwyr contractau parhaol, ac mae cyfnod rhybudd o dri mis yn ofynnol. Ac eithrio'r posibilrwydd o daliad yn lle rhybuddion, nid oes unrhyw ddarpariaethau cytundebol penodol ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar. Fe wnaeth y Prif Weithredwr blaenorol ddewis peidio ag ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni wnaeth Medr unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr i bensiwn y Prif Weithredwr blaenorol.

Nid yw'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn cael unrhyw fuddion pensiwn y telir amdanynt gan Medr.

Cyflogau/cydnabyddiaeth ariannol gros yw'r holl gyflogau/cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan na chafodd neb o aelodau'r Bwrdd nac uwch aelodau o staff unrhyw gydnabyddiaeth ariannol arall na buddion mewn nwyddau, ac eithrio fel a ddatgelir.

Pensiynau

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), a rennir yn adrannau gwahanol – mae **classic**, **premium**, a **classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bo **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Fe wnaeth yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes, ymuno â'r cynllun newydd.

Cynlluniau statudol nas cyllidir yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac **alpha**. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, gan ddibynnu ar eu cyflog). Mae gweddill cost buddion a delir yn cael ei dalu ag arian y pleidleisir arno gan Senedd Prydain bob blwyddyn. Mae pensiynau a delir yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn **partneriaeth**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni yn ôl cyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yr holl aelodau a newidiodd i **alpha** o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu 'bancio', gyda buddion y rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan ydynt yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu dros oedran pensiwn arferol. 60 yw oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium a classic plus**, 65 ydyw ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ydyw ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigyrau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd naill ai ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu yn alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan aelod fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a buddion yn **alpha**, mae'r ffigyrau'n dangos gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedranau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol o gynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Fe arhosodd aelodau hŷn o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i gyflwyno rhwymedi am y diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynlluniau pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe wnaeth y rhan gyntaf gau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethiad ar sail oedran am gyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, trwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a'r un ffigwr cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol a nodir ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu symud yn ôl i mewn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn mynd ati'n weithredol i arfer ei hawl ar adeg ymddeol i benderfynu yn lle hynny ei fod yn cael buddion a gyfrifwyd dan delerau cynllun **alpha** am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal and General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% ac 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn

cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy er mwyn talu costau yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn wedi'i asesu'n actiwaraid, a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV). Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy o'r cynllun i briod dibynnol. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn cymhwyster uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigyrau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd real mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Pensiynau cydweddol (BBA)

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynnydd gael buddion sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun classic Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifiwyd uchod. Mae Medr yn gyfrifol am gyllido buddion pensiwn. Mae gan gyn-Gadeirydd Cyngor CCAUC, yr Athro Syr Roger Williams, bensiwn BBA.

Datgeliadau Cyflog Teg*

	Cyferth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2026 £	Cyferth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2025 £
Band yr aelod o staff â'r cyflog uchaf (cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol)	140,000-145,000	195,000-200,000
Canolrif y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol	53,191	50,018
Cymhareb	2.68:1	3.9:1
25ain Ganran	41,745	38,030
Cymhareb	3.41:1	5.2:1
75ed Ganran	57,083	55,019
Cymhareb	2.50:1	3.6:1

Cyfrifir canrannau a chymarebau heb gynnwys y cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf. Mae'n ofynnol i gyrrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol yr uwch gyflogai sydd â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif cydnabyddiaeth ariannol, cydnabyddiaeth ariannol cyferth ag amser llawn yn y 25ain a'r 75ed ganran, ar gyfer staff y sefydliad. Roedd cydnabyddiaeth ariannol cyferth ag amser llawn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 yn amrywio o £27,316 i £145,000. Roedd cydnabyddiaeth ariannol cyferth ag amser llawn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 yn amrywio o £24,423 i £198,000.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, cafodd yr holl staff heb gynnwys y Cyn-Brif Weithredwr godiad cyflog o 3.75%. Ni chafodd y Prif Weithredwr cyfredol godiad cyflog yn ei rôl fel Prif Weithredwr ond fe gafodd godiad cyflog pro-rata am y pedwar mis rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf pan oedd yn Brif Swyddog Gweithredu. Cafodd rhai aelodau o staff godiadau cynyddrannol blynyddol hefyd, ac eithrio'r Cyn-Brif Weithredwr a'r Prif Weithredwr cyfredol.

Y Prif Weithredwr yw'r Cyfarwyddwr sydd â'r cyflog uchaf yn Medr. Nid yw newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi cael ei ddatgelu oherwydd y newid mewn Prif Weithredwr. Fel a ddatgelir uchod, mae'r Prif Weithredwr cyfredol yn cael cyflog is na'r Cyn-Brif Weithredwr, sy'n adlewyrchu'r ffaith na wnaeth Medr unrhyw gyfraniadau pensiwn ar gyfer y Cyn-Brif Weithredwr.

Roedd y newid canrannol cyfartalog mewn cyflogau a lwfansau mewn perthynas â holl gyfloggeion Medr o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn 1.97%. Nid yw'r cyfartaledd hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr holl staff wedi cael codiad cyflog o 3.75% ac mae wedi digwydd o ganlyniad i'r ffaith bod Medr yn sefydliad sy'n tyfu a chanddo niferoedd CagALL cynyddol trwy gydol y flwyddyn, a effeithiodd ar y cyfrifiad gofynnol.

Adroddiad staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (nifer)	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (nifer)
Uwch Reolwyr	10	8
Polisi	65	47
Rheoleiddio, Ystadegau a Gwasanaethau Corfforaethol	60	58
Cyfanswm Staff	135	113

	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (nifer)	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (nifer)
Staff â chontract cyflogaeth parhaol yn y DU gyda ni**	129	106
Aelodau eraill o staff a oedd yn gweithio ar ein hamcanion***	6	7
Cyfanswm Staff	135	113

**Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr gan bod y penodiad am gyfnod penodol yn un am yn hwy na 12 mis.

***Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026, mae chwe aelod o staff ar secondiad i mewn. Ei priod gyflogwr sy'n dal i fod yn gyfrifol am dalu eu cyflog. Mae Medr yn ad-dalu'r costau cyflogaeth llawn i'r cyflogwr.

Niferoedd staff yn ôl rhywedd

	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (nifer)	Yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (nifer)
Dynion:		
Cyfarwyddwyr	5	6
Staff	48	37
Menywod:		
Cyfarwyddwyr	5	2
Staff	75	66
Cyfanswm	133	111

Nid oes canllawiau eglur ynghylch sut y caiff cyflogeion anneauaid neu draws eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r bwlch cyflog rhywedd. Bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau ein bod yn adrodd dan drefniadau arfer gorau. Ar hyn o bryd, yr opsiynau yw naill ai peidio â chynnwys cyflogeion anneauaid neu draws yn y cyfrifiadau, neu eu cofnodi yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i Cyllid a Thollau EF a manylion hawl i weithio megis gwybodaeth basbort. I Medr, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion na menywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu neu y bydd y drefn ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhywedd yn ystyried gwahanol ryweddau.

Costau staff

	12 mis hyd at 31 Mawrth 2026			8 mis hyd at 31 Mawrth 2025		
	Staff £'000	Bwrdd Gan Gynnwys y Prif Weithre- dwr £'000	Cyfan- swm £'000	Staff £'000	Bwrdd Gan Gynnwys y Prif Weithre- dwr £'000	Cyfan- swm £'000
Cyflogau	6,079	259	6,338	3,295	195	3,490
Costau nawdd cymdeithasol**	839	35	874	379	23	402
Costau pensiwn eraill	1,751	27	1,778	945	2	947
Cyfanswm costau staff uniongyrchol	8,669	321	8,990	4,619	220	4,839

Costau secondiadau i mewn i Medr	420	0	420	595	0	595
Swyddogion y telir ffioedd iddynt (ar y gyflogres)	120	0	120	22	0	22
Cyfanswm costau'r gyflogres	9,209	321	9,530	5,236	220	5,456

**Mae'n cynnwys symiau sy'n daladwy am yr Ardoll Prentisiaethau.

- Roedd ein cyfraniadau cyflogwr o £1.751m yn daladwy yn eu cyfanrwydd i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill yn ôl un gyfradd o 28.97%.

- Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a adwaenir fel “Alpha” – yn gynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr nas cyllidir, ond nid yw Medr yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Fe wnaeth Actwari'r Cynllun brisio'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Ceir manylion ar gov.uk.
- Fel arfer, bydd Actwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff cyfraddau'r cyfraniadau eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod y cyfnod, sydd i'w talu pan fo'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.
- Mae un o gyn-Gadeiryddion Cyngor CCAUC yn cael buddion pensiwn cydweddol (BBA) gyda Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r ddarpariaeth pensiwn BBA yn un nas cyllidir, gyda buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac yn cael eu gwarantu gan Medr. Trosglwyddodd y rhwymedigaeth hon i Medr pan ddiddymwyd CCAUC. Nid oes cronfa ac felly nid oes gwarged na diffyg nac asedau. Cyfrifir rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer gwasanaeth gan Adran Actwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2024-25 a'r cyfanswm oedd £17,000 ar 31 Mawrth 2025; gweler nodyn 12 ar y cyfrifon ar dudalen 96.

Absenoldeb oherwydd salwch

	2025-26 (12 Mis)	2024-25 (8 Mis)
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%)	1.85%	1.05%
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	5.25	1.3
Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd	619.00	187.50
Bras amcan o gost y diwrnodau gwaith a gollwyd	£135,901	£39,677

Mae'r bras amcan o gost diwrnodau gwaith a gollwyd yn seiliedig ar gyflog staff ar radd rheolaeth ganol.

Gwariant ar ymgynghoriaeth

	2025-26 (12 Mis) £	2024-25 (8 Mis) £
Cyfreithiol	24,900	6,574
Strategaeth	14,826	21,982
TG	19,132	0
Adnoddau dynol	86,350	0
Cyfanswm	145,209	28,555

- Mae ymgynghoriaethau cyfreithiol yn cynnwys cyngor cyfreithiol allanol ar faterion rheoleiddio, cyllido, cyflogaeth, ymdrin â chwynion, diogelu dysgwyr, a lesio eiddo. Rhoddwyd cyngor ynghylch Blaenoriaethau Strategol Medr gan swyddogion y talwyd ffioedd iddynt ar y gyflogres.
- Adolygiad o system Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) gan swyddog y talwyd ffi iddynt ar y gyflogres
- Ymgynghoriaeth adnoddau dynol gan swyddog y talwyd ffi iddynt ar y gyflogres a gynorthwyodd yr Uwch Dîm Arwain a'r Tîm Pobl a Diwylliant gydag amrywiaeth o gyngor a thasgau a oedd yn gysylltiedig â phobl.

Cyflogi oddi ar y gyflogres

Ni fu unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres i gyflogeion na staff dros dro oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn.

Pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn ystod y flwyddyn.

Polisiau a materion eraill sy'n ymwneud â staff

Gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion a'r Undeb Llafur

Mae sesiynau briffio staff rheolaidd yn digwydd yn Medr dros Teams i sicrhau bod staff ledled Cymru'n gallu ymuno yn y cyfarfodydd. Mae Medr hefyd yn cyhoeddi crynodebau wythnosol trwy e-bost i'r staff cyfan sy'n cynnwys newyddion a diweddariadau.

Mae Medr yn cydnabod Undeb PCS fel ei undeb llafur ar gyfer staff, ac fe'i cynhwysir ac fe ymgynghorir ag ef yn rheolaidd. Mae Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol wedi cael ei sefydlu, y gall cynrychiolwyr staff sy'n aelodau o undeb PCS ei ddefnyddio i godi materion staff ac mae'r Fforwm hwn yn cwrdd yn rheolaidd.

Yn 2025-26 fe gynhaliom ni arolwg staff i gasglu barn staff ynglŷn â Medr, ei ddiwylliant a'i ffyrdd o weithio. Cafodd camau gweithredu a gododd o'r arolwg hwn eu dadansoddi a'u hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain, y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Medr yn ymrwymedig i ddatblygu ei bolisi ac arfer ar amrywiaeth a chynhwysiant, gyda pholisi Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a pholisi Urddas yn y Gwaith yn eu lle, i sicrhau bod yr holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg.

Mae ein dull recriwtio wedi golygu ein bod wedi ein hachredu fel cyflogwr sy'n "Hyderus o ran Anabledd", lle'r ydym yn cyflawni'r pum ymrwymiad mewn perthynas â recriwtio, hyfforddiant, cadw, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd. Cafodd yr achrediad hwn ei asesu ym mis Gorffennaf 2024 ac mae'n ddilys tan fis Rhagfyr 2026. Yn unol â'r ymrwymadau hyn, byddai unrhyw ymgeisydd sy'n datgan ei fod yn anabl, boed yn ymgeisydd mewnol neu allanol, yn cael cynnig cyfsweliad os yw'n bodloni isafswm y gofynion.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer staff hefyd, lle y bo'n bosibl, oherwydd afiechyd neu nodwedd warchodedig. Gwneir y trefniadau hyn mewn trafodaeth rhwng y cyflogai, ei reolwr llinell a chydweithiwr ym maes Pobl a Diwylliant, neu gyflogai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb. Gallant yn aml gynnwys ein darparwr iechyd galwedigaethol trydydd parti hefyd ar gyfer cyngor arbenigol a diduedd.

Bwlch cyflog rhywedd

	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
Bwlch cyflog rhywedd canolrifol	+2.31%	+7.59%
Bwlch cyflog rhywedd cymedrig	+4.31%	+12.44%

Cyfran y dynion a menywod ym mand cyflog pob chwarterl:

Chwarterl		Nifer**	31 Mawrth 2026	Nifer**	31 Mawrth 2025
Isaf	M	9	28.13%	8	30.77%
	F	23	71.88%	18	69.23%
Canol isaf	M	10	31.25%	8	30.77%
	F	22	68.75%	18	69.23%
Canol uchaf	M	16	50%	11	42.31%
	F	16	50%	15	57.69%
Uchaf	M	16	51.61%	15	57.69%
	F	15	48.39%	11	42.31%

** Nid yw'n cynnwys saith secondeion i mewn.

Nid oes canllawiau eglur ynghylch sut y caiff cyflogeion anneauaid neu draws eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r bwlch cyflog rhywedd. Bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro i sicrhau ein bod yn adrodd dan drefniadau arfer gorau. Ar hyn o bryd, yr opsiynau yw naill ai peidio â chynnwys cyflogeion anneauaid neu draws yn y cyfrifiadau, neu eu cofnodi yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd i Cyllid a Thollau EF a manylion hawl i weithio megis gwybodaeth basbort. I Medr, penderfynwyd peidio â chynnwys unrhyw gyflogeion nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ddynion na menywod, nes bydd canllawiau eglur wedi cael eu darparu neu y bydd y drefn ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhywedd yn ystyried gwahanol ryweddau.

Meincnod

Canolrif y bwlch cyflog rhywedd	13.5%
Cymedr y bwlch cyflog rhywedd	12.3%

– Bwlch cyflog rhywedd ar gyfer yr holl swyddi cyflogeion yn y sector cyhoeddus, y DU, 2025

DS: nid oes unrhyw ystadegau sy'n ymwneud â bonysau gan nad yw Medr yn talu bonysau

Materion cymunedol a hawliau dynol

Mae Medr yn cynnig pum niwrnod o absenoldeb â thâl y flwyddyn i staff wirfoddoli a chefnogi elusennau neu grwpiau cymunedol lleol. Rhoddir anogaeth i wneud hyn fel unigolion, timau, neu ar draws Medr.

Mae Pwyllgor Cymdeithasol Medr wedi cynnal digwyddiadau elusennol, megis arwerthiannau pobi cacennau, ac mae cydweithwyr yn cynnal digwyddiadau codi arian i gefnogi achosion da, rhywbeth a gefnogir yn y sefydliad.

Rydym yn ymgorffori egwyddorion hawliau dynol yn ein polisi ac arferion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae ein polisi ar Urddas yn y Gwaith wedi'i fwriadu i sicrhau bod hawliau'r holl gyflogeion yn cael eu parchu.

Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn sicrhau bod ein dyletswyddau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol yn cael eu cyflawni, gan ddarparu amgylcheddau gweithio diogel ar gyfer staff. Wrth sefydlu Medr, rydym wedi cynnal asesiadau risg adeiladau, asesiadau risg tân ac rydym hefyd wedi sicrhau bod gan y pencadlys yng Nghaerdydd swyddogion cymorth cyntaf a wardeniaid tân hyfforddedig. Gan bod Medr yn denantiaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yng Nghaerdydd, mae perthynas gadarnhaol wedi cael ei sefydlu gyda chyfarfodydd mynych rhwng cyfleusterau ICC a'n Rheolwr Swyddfa.

Mae'r hybiau yn Aberystwyth, Cyffordd Llandudno, Merthyr Tudful ac Abertawe wedi'u lleoli yn adeiladau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion iechyd a diogelwch lleol ac mae hyn yn cael ei gyfleu i staff fel rhan o'u trefniadau sefydlu.

Ar gyfer pencadlys Medr yng Nghaerdydd, mae'r holl gyflogeion newydd yn cael hyfforddiant sefydlu ar yr adeilad yn eu hwythnos gyntaf, ac mae'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu cyfleu'n glir. Efelychir hyn yn yr hybiau, a chyflogeion Llywodraeth Cymru sy'n cynnal yr hyfforddiant sefydlu hwn.

Datblygu, cymorth a llesiant staff

Mae Medr yn annog staff i ddatblygu, dysgu a rhwydweithio yn unol â'i werthoedd craidd. Anogir cyflogeion i berchnogi eu datblygiad ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithredu dull agored o drefnu anghenion dysgu neu ddatblygu wrth i Medr dyfu fel sefydliad.

Mae Medr yn gweithredu sesiynau "Dod i adnabod eich Medr" mynych i staff ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac mae ein diwrnodau datblygu staff yn canolbwyntio ar feithrin gwybodaeth a phrofiad ar y cyd.

Mae gan gyflogeion fynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion, sy'n darparu mynediad at gyngor a chwnsela 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r adnodd ar gael dros y ffôn, ar wefan ac fel cymhwysiad ar gyfer dyfeisiau symudol, ac mae'n hyrwyddo ffitrwydd, ffordd iach o fyw ac yn rhoi cymorth gydag iechyd meddwl.

Mae Medr yn gweithredu awr llesiant, sy'n caniatáu i staff gymryd awr, pro-rata, yr wythnos, yn ystod y diwrnod gwaith i wneud gweithgaredd sydd o fudd i'w hiechyd a'u llesiant.

Ochr yn ochr â'r uchod, mae nifer o bolisiau sy'n seiliedig ar iechyd a llesiant yn eu lle, megis gweithio hyblyg, absenoldeb arbennig, pasbortau addasiadau yn y gweithle, a llawer o adnoddau llesiant ar ein mewnrwyd i gefnogi staff.

Cynaliadwyedd

Mae Medr yn gweithredu arwynebedd llawr a lesir gan sefydliad llywodraethol arall sy'n cyfateb i 9,645 troedfedd sgwâr ac mae hefyd yn rhentu ychydig bach o swyddfeydd yn hybiau Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

Rydym yn adrodd yn flynyddol ar effaith allyriadau wrth Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu cynllun gweithredu cynaliadwyedd i ategu polisi Carbon Sero Net Llywodraeth Cymru.

Categori	Gwybodaeth anariannol		Gwybodaeth ariannol	Allyriadau nwyon tŷ gwydr	
Cwmpas 1 -allyriadau uniongyrchol					
Amh.					
Cwmpas 2 – allyriadau anuniongyrchol (ynni a brynwyd)					
Trydan	61,881	kwh	17,100	15.186	tCO2e
Nwy wedi ei fflworineiddio	0	kg	0		tCO2
Nwy	61,943	kwh	Amh.	13.204	tCO2e
Peledi coed	2,381	kwh	Amh.	0.117	tCO2e
Cyfanswm Ynni				28.507	tCO2e
Cwmpas 3 – allyriadau anuniongyrchol (eraill)					
Dŵr/carthffosiaeth	448	m3	Amh.	0.161	tCO2e
Gwastraff	7,116	kg	0	0.057	tCO2e
Teithio busnes					
Cyfanswm car	67,856	o filltiroedd	29,178	20.990	tCO2e
Cyfanswm bws	142	o filltiroedd	72	0.030	tCO2e
Cyfanswm tacsi	264	o filltiroedd	716	0.079	tCO2e
Cyfanswm trên	55,266	o filltiroedd	18,892	3.952	tCO2e
Cyfanswm awyr	11,873	o filltiroedd	645	3.155	tCO2e
Cyfanswm teithio busnes	135,401	o filltiroedd	49,503	28.206	tCO2e
Cymudo gan staff					
Car	Amh.	Amh.	Amh.	19.598	tCO2e
Trên	Amh.	Amh.	Amh.	7.408	tCO2e
Bws	Amh.	Amh.	Amh.	0.920	tCO2e
Cyfanswm teithio gan staff	Amh.	Amh.	Amh.	27.926	tCO2e
Gweithio gartref	Amh.	Amh.	Amh.	59.966	tCO2e
Cyfanswm y cyfan	Amh.	Amh.	Amh.	144.823	tCO2e

- (a) Fe wnaed cyfrifiadau CO2 lle y bo'n briodol gan ddefnyddio offeryn casglu adroddiadau Sero Net 2025-26 Llywodraeth Cymru a nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig.
- (b) Nid yw data allyriadau 2025-26 gan ein landlord (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar gael eto. Defnyddiwyd data 2024-25, ac ni fu newid i gytundeb lesio Medr yn ystod y flwyddyn.
- (c) Dim ond costau trydan sydd ar gael gan ein landlord. Telir costau eraill sy'n gysylltiedig â'r adeilad trwy daliadau am wasanaeth ac nid ydynt yn cael eu heiteimeiddio ar wahân.
- (d) Mae allyriadau teithiau awyr ar gyfer staff yn cynnwys taith dramor a gyllidwyd gan gorff allanol, fe ddefnyddiwyd amcangyfrif o'r gost a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfrifiad allyriadau.
- (e) Mae cymudo a gweithio gartref gan staff wedi cael eu hamcangyfrif yn seiliedig ar arolwg staff a gynhaliwyd yn haf 2025 ac fe addaswyd hyn i adlewyrchu niferoedd staff cynyddol. Bydd arolwg newydd yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2027 ar gyfer y cylch adrodd nesaf.

Gwastraff

Mae Medr yn ymlynu wrth ddeddfwriaeth Cymru ar ailgylchu, gan wahanu'r deunydd yn bedair ffrwd wahanol: Plastig, Papur a Cherdyn, deunydd na ellir ei ailgylchu a bwyd. Anogir staff i wahanu yn y modd cywir gyda biniau gwastraff manylach yn cael eu defnyddio sy'n ei gwneud yn bosibl gwahanu gwastraff yn briodol ac arwyddion perthnasol sy'n cael eu dangos yn glir.

Teithio busnes, gweithio gartref a chymudo

Mae'r holl anghenion teithio busnes yn cael eu hystyried yn ofalus. Lle mae angen teithio, anogir staff i rannu dull teithio lle y bo'n briodol ac ystyried defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae staff yn gweithio gartref yn bennaf ac fe'u hanogir i ddefnyddio mannau yn y swyddfeydd lle mae angen pwrpas.

Allyriadau'r gadwyn gyflenwi

Bydd Medr yn parhau i gasglu data gwariant cyflenwyr i ategu gofynion adroddiadau carbon Llywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Medr, yr wyf wedi adolygu'r dystiolaeth a gallaf gadarnhau bod y datganiadau a wnaed yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Ni fu unrhyw faterion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol na llywodraethu. Gallaf hefyd gadarnhau bod systemau rheolaeth fewnol cadarn yn eu lle i helpu i gyflawni ymrwymïadau a chyrraedd nodau strategol y sefydliad.

James Owen

Prif Weithredwr

25 Medi 2026

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Medr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan darpariaethau adran 139 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o wariant net cynhwysfawr, y Datganiad o'r sefyllfa ariannol, y Datganiad o lif arian, y Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Medr ar 31 Mawrth 2026 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Barn ar reoleidd-dra

at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Medr ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain.

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac

Ymchwil (Cymru) 2022; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol ac Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;

- asesu gallu Medr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Medr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Medr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Medr sy'n ymwneud ag:

- adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: wrthwneud rheolaethau gan reolwyr;

- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Medr, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Medr yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Medr;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Medr, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwrmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

29 September 2026

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Medr sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiad gwariant net cynhwysfawr
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Incwm			
Incwm grant arall	2	(10,469)	(4,506)
Cyfanswm incwm grant arall		(10,469)	(4,506)
Gwariant			
<i>Cyllido addysg drydyddol:</i>			
Gwariant cylchol	3	962,968	650,425
Gwariant cyfalaf	3	39,000	31,524
Dibenion eraill	3 & 5	10,429	4,478
Cyfanswm gwariant cyllido addysg drydyddol		1,012,397	686,427
<i>Gwariant gweithredu:</i>			
Costau staff		9,530	5,456
Dibrisiant	7	92	62
Amortiddiad	8	317	212
Dibrisiant ased hawl-i-ddefnyddio	13	200	133
Gwariannau eraill	6	1,530	958
Cyfanswm gwariant gweithredu		11,669	6,821
Cyfanswm gwariant		1,024,066	693,248
Costau gweithredu net		1,013,597	688,742
Llog IFRS 16	14	29	23
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		1,013,626	688,765

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Dangosir manylion costau staff ar dudalen 67 fel rhan o'r Adroddiad ar Gydnyddiaeth Ariannol a Staff.

Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 25 Medi 2026.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol

ar 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	7	302	393
Asedau anniriaethol	8	423	741
Ased hawl-i-ddefnyddio	13	450	649
Cyfanswm asedau anghyfredol		1,175	1,783
Asedau cyfredol			
Symiau masnach a derbyniadwy eraill	9	205	273
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	10	9,121	7,765
Cyfanswm asedau cyfredol		9,326	8,038
Cyfanswm asedau		10,501	9,821
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach a thaladwy eraill	11	(850)	(700)
Rhwymedigaeth Les	14	(200)	(192)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn un flwyddyn	12	(2)	(1)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(1,052)	(893)
Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol		9,449	8,929
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl un flwyddyn	12	(13)	(16)
Rhwymedigaeth les	14	(269)	(468)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(282)	(484)
Cyfanswm asedau namyn cyfanswm rhwymedigaethau		9,167	8,444
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill			
Cronfa Gyffredinol		9,167	8,444

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 25 Medi 2026.

James Owen, Prif Weithredwr
25 Medi 2026



Datganiad Llifoedd arian parod
am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu			
Costau gweithredu net cyn llog		(1,013,597)	(688,742)
Taliadau dibrisiant	7	92	62
Taliadau amorteiddiad	8	317	212
Dibrisiant ar ased hawl-i-ddefnyddio	13	200	133
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach ac eraill derbyniadwy sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	9	68	(47)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach ac eraill taladwy	11	150	218
Symudiad mewn darpariaethau	12	(3)	1
All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredu		(1,012,773)	(688,163)
Llifoedd arian parod o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid			
Llog IFRS 16 a dalwyd	14	(29)	(23)
Llifoedd arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau ac ad-daliadau cyllid		(29)	(23)
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu Eiddo, Offer a Chyfarpar	13	0	(783)
Prynu asedau sefydlog anniriaethol	8	0	(80)
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		0	(862)
Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido			
Rhwymedigaeth IFRS 16 Lesoedd	14	(191)	660
Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru		1,014,349	692,256
Llifoedd arian parod net o weithgareddau cyllido		1,014,158	692,916
Cynnydd net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod		1,356	3,868
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod	10	7,765	3,897
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod	10	9,121	7,765
Cynnydd net mewn arian parod		1,356	3,868

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.
Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 25 Medi 2026.

Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

	Cronfa Gyffredinol	
	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Balans ar 1 Ebrill	8,444	4,953
Gwariant net cynhwysfawr am y cyfnod	(1,013,626)	(688,765)
Cymorth grant gan Lywodraeth Cymru	1,014,349	692,256
Balans ar 31 Mawrth	9,167	8,444

Mae'r nodiadau ar dudalennau 84 i 102 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Fe wnaeth y Swyddog Cyfrifyddu awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 25 Medi 2026.

Nodiadau ar y cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

(a) Sail cyfrifyddu

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan arfer pwerau a roddwyd gan baragraff 15, Atodlen 1 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiau cyfrifyddu yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis o bolisiau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y tybir ei fod yr un mwyaf priodol i'n hamgylchiadau ni at ddiben rhoi darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Caiff y polisiau a fabwysiadwyd gennym ni eu disgrifio isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd sydd wedi'u cyhoeddi ond heb ddod i rym eto a fyddai'n cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi cael eu cymhwyso yn y cyfnod adrodd hwn.

(b) Cyllid

Ceir cymorth grant gan Lywodraeth Cymru i gyllido gweithgareddau refeniw cyffredinol. Caiff y swm yma o gymorth grant ei ystyried yn gyllido ac fe'i credydir i'r gronfa gyffredinol pan fo'n dod i law.

(c) Grantiau taladwy

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi ar sail blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, ond caiff grantiau taladwy eu talu ar sail blwyddyn academiaidd hyd at 31 Gorffennaf. Caiff grantiau taladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, sy'n creu hawl. Caiff y grantiau hynny sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid cylchol a ddarperir i ddarparwyr addysg bellach ac uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Mae'r driniaeth hon, ym mhob ffordd berthnasol, yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y darparwyr addysg bellach ac uwch.

(d) Grantiau ad-daladwy

Mae grantiau ad-daladwy'n gyllid a ddarperir i ddarparwyr yn unigol i gefnogi costau cychwynnol prosiectau penodol, a gaiff eu hadfer fel rheol trwy addasiad i'w cyllid yn y dyfodol.

(e) Costau pensiwn

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS).

Rydym yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan ydym yn cael budd o wasanaethau cyflogeion trwy dalu symiau a gyfrifir ar sail gronol i drefniadau'r ddau gynllun pensiwn. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn dâl a godir ar drefniadau'r ddau gynllun.

Mae un o gyn-Gadeiryddion CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n cyfateb i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r rhwymedigaeth wedi trosglwyddo i Medr fel y sefydliad a olynodd CCAUC. Rydym yn gwneud taliadau i'r cyn-Gadeirydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir cost ddisgwyliedig darparu'r pensiwn trwy gronni darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth yn y dyfodol, gan ddefnyddio tybiaethau a aseswyd yn actiwaraid.

(f) Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff tir ac adeiladau lesddaliad eu dal yn ôl gwerth y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol, yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a ddelir yn ôl cost amnewid ddibrisiedig. Caiff tir ac adeiladau lesddaliad eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol.

Caiff offer a chyfarpar (sy'n cynnwys technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau) eu prisio yn ôl cost hanesyddol. Gan bod gan y dosbarthiadau asedau hyn oes economaidd ddefnyddiol fer, dim ond am grobris y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau asedau hyn. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £5000.

Cyfrifir dibrisiant ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased, gyda hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased (gweler isod). Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiant yn y flwyddyn y'i prynwyd, heb unrhyw dâl yn y flwyddyn y'i gwaredir. Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau anniriaethol ac asedau eiddo, cyfarpar ac offer eraill yn ôl rhandaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Tir ac adeiladu lesddaliad – 5 i 15 mlynedd

Offer a Chyfarpar – 5 mlynedd

Technoleg gwybodaeth – 3 mlynedd

Gosodiadau a ffitiadau – 5 mlynedd

Caiff unrhyw addasiadau i'r swyddfa sydd wedi'u cynnwys o fewn gosodiadau a ffitiadau eu hamorteiddio dros weddill cyfnod y les, o'r dyddiad prynu.

(g) Asedau sefydlog anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £5,000 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ddangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o amorteiddiad yn y flwyddyn y'i prynwyd.

Trwyddedau meddalwedd – 3 mlynedd

(h) Treth Ar Werth

Mae gweithgareddau Medr y tu allan i gwmpas TAW. Codir TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu fe gaiff ei chynnwys yn y gost prynu wedi'i chyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

(i) Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Lesoedd

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 Lesoedd yn disodli Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 17 Lesoedd ac mae mewn grym yn y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Mae'n darparu un model cyfrifyddu lesddeiliad ac yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaethau ar gyfer lesoedd â chyfnod o lai na 12 mis oni bai bod y gwerth sylfaenol yn isel.

(j) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw symiau masnach derbyniadwy'n dwyn unrhyw log ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yn y banc ar delerau mynediad-ar-unwaith yw arian parod.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw symiau masnach taladwy'n dwyn llog ac fe'u datgenir yn ôl eu gwerth enwol.

(k) Adrodd cylchrannol

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i ateb gofynion IFRS 8 i adrodd ar wybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir meini prawf o dan IFRS 8. Rydym ni o'r farn bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth gan weithredu o fewn yr un amgylchedd busnes ac nad oes unrhyw gylchrannau gweithredu gwahanadwy. O ganlyniad, nid ydym yn adrodd yn ôl cylchrannau gweithredu.

(l) Costau a secondiadau staff

Fel arfer mae cyflog unrhyw staff ar secondiad yn dal i gael ei dalu gennym ni. Pan ad-delir costau ar gyfer staff ar secondiad, caiff hynny ei netio yn erbyn costau staff yn y nodyn sydd wedi'i gynnwys o fewn yr Adroddiad Staff, sy'n rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd.

(m) Trosglwyddo trwy Ymgorffori

Fe wnaeth swyddogaethau a arferai gael eu cyflawni gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru drosglwyddo i Medr ar 01 Awst 2024. Diddymwyd CCAUC ar 31 Gorffennaf 2024. Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol mae trosglwyddo swyddogaethau o CCAUC a Llywodraeth Cymru i Medr yn cael ei drin fel trosglwyddo trwy ymgorffori. Mae symiau asedau net a gofnodwyd wedi cael eu dwyn i mewn i ddatganiadau ariannol Medr o 01 Awst 2024. Mae gwerth cario asedau net wedi cael ei gofnodi fel enillion nad ydynt yn enillion gweithredu o drosglwyddo swyddogaeth, trwy wariant net. Mae unrhyw gronfeydd wrth gefn ailbriso a dibrisiant cronedig wedi cael eu trosglwyddo, gydag addasiadau cyfatebol i gronfa wrth gefn y gronfa gyffredinol.

(n) Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd

Mae'n ofynnol rhoi cyfrif am ddigwyddiadau rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol gan Fwrdd Medr i'w cyhoeddi a hynny yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 10 (IAS 10).

(o) Darpariaethau

Ystyr darpariaeth yw rhwymedigaeth y mae ei hamseriad neu ei swm yn ansicr. Ystyr rhwymedigaeth yw rhwymedigaeth gyfreithiol neu rwymedigaeth adeiladol sy'n codi o weithredoedd endid, lle mae wedi dynodi wrth eraill y bydd yn derbyn rhai cyfrifoldebau penodol, ac o ganlyniad wedi creu disgwyliad y bydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Bydd Medr yn cydnabod darpariaeth os yw'n debygol y bydd all-lif o arian parod neu adnodd economaidd arall yn ofynnol i setlo'r ddarpariaeth. Adolygir pob darpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(p) Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Ystyr rhwymedigaethau digwyddiadol yw rhwymedigaethau dychmygadwy y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth endid a/neu rwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod am nad yw eu swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy neu am nad yw'n debygol y byddant yn cael eu setlo.

Nid yw rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn cael ei chydabod yn ffurfiol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Oni bai bod y posibilrwydd o all-lif o adnoddau economaidd yn annhebygol, datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol fel nodyn ar y Datganiad Cyfrifon.

2. Incwm Grant Arall

	2025/26 (12 Mis) £'000	2024/25 (8 Mis) £'000
Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg – Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil	9,247	4,478
Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF)	1,182	0
Prevent	40	28
Cyfanswm Incwm o Weithgareddau	10,469	4,506

Cyllid i roi cymorth i adrodd ar gydymffurfio â'r Ddyletswydd Prevent gan addysg uwch yw incwm Prevent.

3. Cyllido addysg drydyddol
Crynodeb o Wariant Rhaglenni

	12 mis i 31 Mawrth 2026 £'000	8 mis i 31 Mawrth 2025 £'000
Gwariant Cymorth Grant		
Cyllid Craidd Addysg Uwch	158,826	121,966
Cyllid Craidd Addysg Bellach	481,105	302,356
Cyllid Craidd Awdurdodau Lleol	128,853	78,349
Cyllid Strategol	46,988	33,576
Gradd-brentisiaethau	9,206	8,354
Lleoedd Meddygol	4,192	3,967
Wedi'i Glustnodi*	960	513
Cyfalaf	39,000	31,524
Prentisiaethau	138,942	110,705
Cyfanswm Gwariant Cymorth Grant	1,008,072	691,310
Adfachu**	(6,104)	(9,362)
Gwariant Cyllid Nad yw'n Gymorth Grant ***	10,429	4,478
Cyfanswm Gwariant	1,012,397	686,427

*Cyllid ar gyfer prentisiaethau iau

**Gweler Nodyn 4.

***Gweler Nodyn 5. Cyllid nad yw'n gymorth grant yw hwn.

Fe etifeddodd Medr ymrwymïadau cyllid o benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2024/25 (o 1 Awst 2024 hyd at 31 Gorffennaf 2025).

4. Grantiau i ddarparwyr

Wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn mae grantiau i ddarparwyr addysg drydyddol, sy'n amodol ar gadarnhad archwilyr allanol y derbynyddion eu bod wedi cael eu defnyddio at eu diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol darparwyr yn dod i ben ar 31 Gorffennaf, ac unwaith y byddwn wedi cael eu cyfrifon archwiliedig, byddwn yn adolygu a oes angen unrhyw addasiadau i grantiau. Mae adfachiadau a gydnabyddir yn y flwyddyn yn ymwneud ag ystod o raglenni grant. Oherwydd amseriad adroddiadau darparwyr, gall addasiadau ymwneud â dyraniadau cyllid ar draws blynnyddoedd lluosog, ac fe arweiniodd y rhain at adfachu £6.104m. Bydd unrhyw addasiad sy'n deillio o gyfrifon 2025/26 a niferoedd myfyrwyr yn cael ei wneud gennym ni mewn blynnyddoedd yn y dyfodol.

Rydym yn cadarnhau bod grantiau yr ydym wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio at eu dibenion cymeradwy.

5. Gwariant at ddibenion eraill*

	12 mis i 31 Mawrth 2026 £'000	8 mis i 31 Mawrth 2025 £'000
Cronfa Fuddsoddi Cyfalaf Ymchwil		
Prifysgol Abertawe	2,301	1,163
Prifysgol Caerdydd	5,008	2,339
Prifysgol De Cymru	235	114
Prifysgol Bangor	802	440
Prifysgol Aberystwyth	747	361
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	154	61
Cyfanswm	9,247	4,478

12 mis i 31 Mawrth 2026 £'000	8 mis i 31 Mawrth 2025 £'000
-------------------------------------	------------------------------------

Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol		
Prifysgol Abertawe	284	0
Prifysgol Caerdydd	366	0
Prifysgol Bangor	307	0
Prifysgol Aberystwyth	225	0
Cyfanswm	1,182	0

Cyfanswm gwariant at ddibenion eraill	10,429	4,478
--	---------------	--------------

* Cyllid nad yw'n gymorth grant.

6. Gwariannau eraill

	12 mis i 31 Mawrth 2026 £'000	8 mis i 31 Mawrth 2025 £'000
Gwariant Gweithredol		
Costau adeiladau	165	151
Costau swyddfa	107	41
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	51	112
Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr	68	52
Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd	8	7
Costau cyfarfodydd aelodau'r Bwrdd	8	8
Costau teithio a chynhaliaeth staff	90	39
Gwariant sy'n gysylltiedig â staff ar hyfforddiant, recriwtio a.y.b.	185	63
Costau technoleg gwybodaeth	848	485
Cyfanswm gwariant gweithredol	1,530	958

7. Eiddo, offer a chyfarpar

	Offer technoleg gwybodaeth (12 Mis) £'000	Gosodiadau, ffitiadau ac offer (12 Mis) £'000	Cyfanswm (12 Mis) £'000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2025	273	459	732
Ychwanegiadau	0	0	0
Gwarediadau	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	273	459	732
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2025	273	66	339
A godwyd yn ystod y cyfnod	0	91	91
Gwarediadau	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	273	157	430
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2026	0	302	302
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2025	0	393	393

	Offer technoleg gwybodaeth (8 Mis) £'000	Gosodiadau, ffitiadau ac offer (12 Mis) £'000	Cyfanswm (8 Mis) £'000
Cost			
Ar 1 Ebrill 2024	344	464	808
Ychwanegiadau	0	0	0
Gwarediadau	(71)	(5)	(76)
Ar 31 Mawrth 2025	273	459	732
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2024	343	10	353
A godwyd yn ystod y cyfnod	1	61	62
Gwarediadau	(71)	(5)	(76)
Ar 31 Mawrth 2025	273	66	339
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	0	393	393
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2024	1	454	455

8. Asedau sefydlog anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd (12 Mis) £'000	Trwyddedau meddalwedd (8 Mis) £'000
Cost		
Ar 1 Ebrill 2025	973	894
Ychwanegiadau	0	80
Gwarediadau	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	973	973
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2025	233	21
A godwyd am y cyfnod	317	212
A ryddhawyd wrth waredu	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	550	233
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2026	423	741
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	741	872

9. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn		
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	203	271
Symiau derbyniadwy eraill	2	2
Cyfanswm symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	205	273
Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	0	0
Balansau gyda chyrff llywodraethol eraill	0	0
Cyfanswm balansau gyda chyrff llywodraethol eraill	0	0
Balansau gyda chyrff anllywodraethol	205	273
Cyfanswm symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	205	273

10. Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod

	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Arian parod a ddelir dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth		
Balans ar ddechrau'r cyfnod	7,765	3,897
Newid net mewn balansau arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	1,356	3,868
Balans 31 Mawrth	9,121	7,765

Gwasanaeth bancio ar draws y Llywodraeth gyfan a ddarperir gan y Royal Bank of Scotland (RBS) yw Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS). Nid ydym yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

Mae'r ddogfen fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyfyngu i'r eithaf ar ei ddaliadau arian parod a pheidio â dal mwy ar ddiwedd y flwyddyn na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant sydd ar gael. £9.121m oedd balans arian parod cau Medr, a oedd yn 0.9% o gyfanswm yr arian a oedd ar gael.

11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Credydwy'r Masnach	6	2
Croniadau	844	698
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	0	0
Mân gredydwy'r	0	0
Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn	850	700
Balansau mewnllywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog	216	186
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	0	0
Cyfanswm balansau gyda chyrff llywodraethol eraill	216	186
Balansau gyda chyrff anlllywodraethol	634	514
Cyfanswm symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	850	700

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Darpariaethau	0	0
Rhwymedigaethau:		
Tâl rhwymedigaeth pensiwn cydweddol am y flwyddyn*	2	1
Dadansoddiad o amseriad rhwymedigaeth		
Yn dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	2	1
Yn dod yn ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd	10	7
Yn dod yn ddyledus ar ôl pum mlynedd	3	9
Cyfanswm rhwymedigaeth	15	17

* Gweler y nodyn ar Gostau Staff ar dudalennau 64 a 68.

13. Asedau hawl-i-ddefnyddio

	Adeiladau O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	Adeiladau O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Cost		
Ar 1 Ebrill 2025	0	0
Cydnabod ased dan IFRS 16	783	783
Ychwanegiadau	0	0
Gwarediadau	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	783	783
Dibrisiant		
Ar 1 Ebrill 2025	133	0
A godwyd am y cyfnod	200	133
A ryddhawyd wrth waredu	0	0
Ar 31 Mawrth 2026	333	133
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2026	450	–
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2025	–	650

14. Rhwymedigaethau lesioedd

	Adeiladau O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000	Adeiladau O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 (8 Mis) £'000
Cost		
Ar 1 Ebrill	660	0
Cydnabod ased dan IFRS 16	0	783
Ychwanegiadau	0	0
A ad-dalwyd yn y flwyddyn	(220)	(146)
Llog a godwyd	29	23
Ar 31 Mawrth	469	660
Dadansoddiad o amseriad rhwymedigaeth		
Yn dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	200	192
Yn dod yn ddyledus yn hwyrach nag un flwyddyn ond yn ddim hwyrach na phum mlynedd	269	468
Cyfanswm rhwymedigaeth lesioedd	469	660

15. Ymrwymadau ariannol a rhwymedigaethau digwyddiadol eraill

	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth £'000	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	331,255	393,941
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	0	41,111
Cyfanswm	331,255	435,052

Yn y cyfnod adrodd, fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Medr ar sail blwyddyn ariannol. Rhaid i Medr reoli cyllid yn unol â'r angen i sefydliadau gael cyllid sy'n cyd-fynd â'u cyfnod gweithredu a/neu ddarparu yn seiliedig ar flwyddyn academiaidd. Oherwydd hyn, rhaid i Medr wneud ymrwymadau sy'n croesi i mewn i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Bydd Medr yn cyllido'r ymrwymadau hyn trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

16. Partïon cysylltiedig

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cadarnhau bod IAS 24 – Datgeliadau Partïon Cysylltiedig yn berthnasol i'r datganiadau ariannol hyn. Diben y safon hon yw sicrhau bod y datganiadau hyn yn cynnwys datgeliadau y tybir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu tryloywder lle mae'r posibilrwydd yn bodoli y gallai bodolaeth partïon cysylltiedig a/neu drafodiadau gyda'r rhai yr ystyrir eu bod yn barti cysylltiedig fod wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol. Ystyrir mai Parti cysylltiedig yw person neu endid lle gellid meddwl bod gan Medr neu swyddogion Medr ddylanwad ar berfformiad neu allbynnau sefydliad arall neu yn yr un modd bod gan sefydliad allanol neu swyddogion a gyflogir yn allanol ddylanwad ar Medr.

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Medr. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru'n barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Medr amryw drafodiadau perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, yr ystyrir mai hi oedd y rhiant-Adran.

Yn ystod y cyfnod fe gofnododd Medr y trafodiadau isod gyda Llywodraeth Cymru:

Cydnabyddiaeth i Gyllid Grant a dderbyniwyd:

	£'000
Cymorth Grant	1,014,349
Cyllid Nad yw'n Gymorth Grant	10,429
Cyfanswm Cyllid	1,024,778

CYDNABYDDIAETH I DALIADAU A WNAED:

	£'000
Secondiadau i mewn	248
Rhentu HYBIAU	21
Archwilio mewnol	77
Arall	25
Cyfanswm taliadau	370

Mae'r safon Partïon cysylltiedig hefyd yn cynnwys cyfansoddiad y bwrdd rheoli (gan gynnwys aelodau anweithredol neu ymgynghorol y bwrdd) wrth ystyried partïon cysylltiedig. Tybir mai unigolion yw'r rhain yr ystyrir bod ganddynt ddylanwad ar benderfyniadau llywodraethu'r endid. Mae'r safon yn ystyried nad yw dau endid yn gysylltiedig oherwydd bod ganddynt gyfarwyddwr neu bersonél rheoli allweddol arall yn gyffredin. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno isod berthnasodd a thrafodiadau yr ydym yn rhannu aelodau bwrdd gyda hwy neu mewn rhai achosion, aelodau o'u teulu agos. Mae'n annhebygol y byddai aelodau'r bwrdd wedi bod yn ymwybodol o drafodiadau o'r fath gan na fyddent yn cyfranogi mewn cymhwyster gweithrediadol nac yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau i gyflawni'r trafodiadau hyn.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth Medr, fel rhan arferol o'i fusnes, ymrwymo i'r trafodiadau canlynol gyda'r sefydliadau canlynol yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig

Enw	Dynodiad	Perthynas â'r parti cysylltiedig
Yr Athro Fonesig Julie Lydon	Cadeirydd	Cymdeithas Ddysgedig Cymru – Cymrawd Etholedig y Gymdeithas, Aelod o'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a Phroffesiynau Prifysgol Gorllewin Lloegr – Aelod o'r Bwrdd
Yr Athro David Sweeney CBE	Dirprwy Gadeirydd	The Conversation UK – Bwrdd neu Fwrdd Cynghori Ymchwil ac Arloesi yn y DU – Cyflogedig
Dan Beard	Aelod o'r Bwrdd	Prifysgol De Cymru – Cyflogwr
Cerys Furlong	Aelod o'r Bwrdd	Ysgol Uwchradd Fitzalan (Yn cael ei chyllido trwy Gyngor Sir Caerdydd) – Llywodraethwr Gwirfoddol
Rob Humphreys CBE FLSW	Aelod o'r Bwrdd	Cymdeithas Ddysgedig Cymru – Un o Gymrodry Etholedig y Gymdeithas, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar gyfer Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a Phroffesiynau
James Davies	Aelod o'r Bwrdd	Prifysgol Abertawe – Aelod o'i deulu estynedig yn Aelod o'r Bwrdd
Dr Gwenllïan Lansdown Davies	Aelod o'r Bwrdd	Mudiad Meithrin – Prif Weithredwr
Jeff Greenidge	Aelod o'r Bwrdd	Cymdeithas y Colegau – Cyflogedig
Stephen Marston	Aelod o'r Bwrdd	Prifysgol Derby – Aelod Anweithredol o'r Bwrdd ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg
Yr Athro Chris Millward	Aelod o'r Bwrdd	Y Swyddfa Fyfyrrwyr – Cyfarwyddwr interim (Swydd anweithredol)
Estelle Hart	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	Prifysgol Abertawe – Cyflogedig Undeb Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru – Sedd ar y pwyllgor gwaith cenedlaethol ac yn Gadeirydd
Deio Owen	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	Gwasanaethau Elusennol Undebau Myfyrwyr UCM – Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr

Mae cyfanswm y cyllid* a gafodd pob un o'r sefydliadau a restrir uchod fel a ganlyn:

Trafodiadau gyda Phartïon Cysylltiedig	O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 (12 Mis) £'000
The Conversation Trust (UK) Limited	50
Cyngor Sir Caerdydd	21,286
Cymdeithas Ddysgedig Cymru	372
Prifysgol Abertawe	35,946
Undeb Prifysgolion a Cholegau yng Nghymru	69
Gwasanaethau Elusennol Undebau Myfyrwyr UCM	119
Prifysgol Gorllewin Lloegr	7
Ymchwil ac Arloesi yn y DU	183
Prifysgol De Cymru	24,073
Cymdeithas y Colegau	10
Prifysgol Derby	2
Y Swyddfa Fyfirwyr	198

* Mae'r symiau'n cynrychioli cyfanswm y cyllid a gafodd y sefydliadau ar sail arian parod.

O fewn y trafodiadau partïon cysylltiedig uchod, mae'r symiau derbyniadwy isod wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol:

Symiau masnach derbyniadwy

Trafodiadau gyda phartïon cysylltiedig	Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn £'000	Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn £'000
The Conversation UK	8	0

Credydwy'r masnach

Trafodiadau gyda phartïon cysylltiedig	Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn £'000	Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn £'000
Ymchwil ac Arloesi yn y DU	64	0
Y Swyddfa Fyfirwyr	28	0

Yn ystod y flwyddyn nid oes unrhyw Aelod o'r Bwrdd nac uwch aelodau o staff na phartïon cysylltiedig eraill wedi cyflawni unrhyw drafodiadau perthnasol gyda Medr.

Mae manylion y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Bwrdd ar gael ar wefan Medr dan Y [Bwrdd a Llywodraethu](#).

17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar ôl y cyfnod adrodd, fe ddyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i Medr ar sail blwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2026 hyd at 31 Mawrth 2027. Mae gan Medr ofyniad i gwrdd â'r ymrwymïadau cyllid ar gyfer gweddill blwyddyn academiaidd 2025/26 (o 1 Ebrill 2026 hyd at 31 Gorffennaf 2026) a osodwyd ar gyllideb Medr gan benderfyniadau blaenorol gan Weinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ym mis Mai 2026, cafodd awdurdodau lleol fanylion dyraniadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd (01 Awst 2026 – 31 Gorffennaf 2027). Mae'r rhain, ac unrhyw ymrwymïadau eraill ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 neu flwyddyn academiaidd 2025/26 wedi cael eu datgelu. Bydd Medr yn cyllido'r ymrwymïadau hyn trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 gan y Senedd, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 26 Mawrth 2026 mai £1,018,508,000 fyddai cyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

Mae'r dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27, fel a nodir yn y [buddsoddiad ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27](#), yn seiliedig ar y tybiaethau cyllido ar y pryd. Bydd Medr yn gwneud pob ymdrech resymol i anrhydeddu'r dyraniad yn llawn; fodd bynnag, gallai'r cyllid ar gyfer pedwar mis olaf y flwyddyn academiaidd (01 Ebrill 2027 – 31 Gorffennaf 2027) gael ei amrywio lle y bo angen i adlewyrchu newidiadau yn argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2027-28.

Fe anfonwyd y cyhoeddiadau at sefydliadau ar 13 Mai 2026 ac fe gaiff yr ymrwymïadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd eu cyflwyno isod:

Cyhoeddiadau a anfonwyd ar ôl 31 Mawrth 26	£'000
Dim hwyrach na blwyddyn	657,717
Yn hwyrach na blwyddyn ac yn ddim hwyrach na phum mlynedd	363,215
Cyfanswm	1,020,932

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

info@medr.cymru
medr.cymru



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government